EDRYCH TUAG YMLAEN

Bydd y Bwrdd yn pwyso a mesur dulliau gwahanol o gynhyrchu incwm e.e. trwy geisio datblygu ymdrechion mwy effeithlon o reoli eiddo, a bydd yn dal i gefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol a syniadau'n deillio o'r bedwaredd archddiaconiaeth.

Covid19

Mae pawb ohonom yn sylweddoli i Bandemig Covid 19 daro wrth i flwyddyn yr adroddiad hwn gilio. Ni lawn sylweddolwyd hyd yn hyn, pa mor enbyd fu'r canlyniad ar yr Esgobaeth, ac ar gyllid a busnes y Bwrdd. Byddaf yn crybwyll y materion hyn yn fy adroddiad 2020-21; erbyn hynny, hyderaf y bydd trywydd sicrach i'n byd ac i ddynoliaeth.

LOOKING FORWARD

The Board will explore different sources of income generation e.g., through developing more effective property management and will continue to support Local Ministry Areas and the initiatives around the fourth archdeaconry.

Covid19

We are all aware that the period which is the subject of this report ended with the start of the Covid 19 Pandemic. The consequential impact of this on the Diocese and on the funds and business of the Board, have yet to be determined. I will report on these matters in my report for 2020-21 by which time I trust we will have seen our World return to a steadier course.

ADRODDIADAU CRYNO BLYNYDDOL

Tudalenau 27-60

ANNUAL SUMMARY REPORTS

Pages 27-60

Cyfnod dan sylw: 1af Ionawr 2019 i 31ain Rhagfyr 2019
Awdur: Parch Ganon Ddr Rhiannon Johnson, Cyfarwyddydd Gweinidogaeth

AELODAETH

Cadeirydd y Gyfarwyddiaeth Weinidogaethu yw Archddiacon Caerfyrddin, a'i haelodau yw'r Archddiaconiaid, y Cyfarwyddydd Gweinidogaeth, hefyd y swyddogion sy'n gyfrifol am drefnu amrywiol fathau o ddatblygiad gweinidogaethol yn yr esgobaeth. Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol o'r Gyfarwyddiaeth dair gwaith y flwyddyn, ond mae'r swyddogion yn dal i weithio'n unigol ac ar y cyd, gydol y flwyddyn. Yn 2019 penodwyd Warden Darllenwyr newydd a chyfunwyd swyddi blaenorol yn gofalu am Addysg Weinidogaethol Barhaol ac Addysg Weinidogaethol Ddechreuol, gan benodi swyddog newydd ar gyfer Addysg Weinidogaethol. Yn 2019, penodwyd JD. Laurence yn diwtor St. Padarn dros yr Esgobaeth a daeth atom yn aelod. Penodwyd Mrs Lindy Wainwright yn ysgrifennydd y Gyfarwyddiaeth, er mawr fendith ar ein gwaith.

AMCANION

Mae'r Gyfarwyddiaeth Weinidogaethu yn goruchwylio'r ddarpariaeth ar gyfer gweinidogaeth leyg ac ordeiniedig yn yr Esgobaeth, a hynny'n cynnwys dirnadaeth ac hyfforddiant. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynghori'r Esgob ynglŷn â pholisi gweinidogaethol, ond canolbwyntir yn bennaf ar weithredu, cydlynu a datblygiad gweinidogaethol.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

O ran y cyfnod dan sylw, anfonwyd pump ymgeisydd GDG(Ll) newydd i ymddangos gerbron Panel Dirnad Rhanbarthol fis Chwefror 2020; derbyniwyd un ymgeisydd newydd i'w hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth gyflogedig, a bu sawl ymgeisydd arall yn yr un categori, yn barod ar gyfer Dirnad Taleithiol yn niwedd cyfnod yr adroddiad hwn; gweithredodd tri Phanel Dirnad Esgobaethol; trwyddedwyd dau Ddarllenydd newydd; gwelwyd y Gydgymdeithas Alwedigaethau'n bwrw ymlaen â'i gwaith allweddol-bwysig, ynghyd â chynhadledd dra llwyddiannus ym mis Tachwedd; cynhyrchwyd adnoddau ar gyfer arweinyddion addoliad a chynhaliwyd diwrnod arbennig o lwyddiannus i'r cyfryw rai. Trefnwyd dyddiau AWB, yn cynnwys hyfforddiant ynglŷn â gwaith ysgolion, a gwahoddwyd penaethiaid ysgolion eglwys hefyd, i fynychu. Daw ein cyfnod arbrofol o dair blynedd, yn cyplysu cynllun y GDG(Ll) â St. Padarn i ben yn 2020. Bu cyd-drafod ac ailsefydlu'r berthynas hon yn 2019.

Dyma restr pobl oedd yn derbyn hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig a thrwyddedig yn niwedd 2019

- 10 wrthi'n hyfforddi (2 i'w hordeinio a chyflogedig, 1 GDG, 6 GDG(Ll), 1 Darllenydd)
- 11 yn nyddiau cynnar eu gweinidogaeth (2 Ddarllenydd newydd eu trwyddedu, 9 diacon - 2 ohonynt yn gyflogedig, 6 yn GDG (Ll) ac un yn arloesydd ordeiniedig).
- 10 curad profiadol (4 cyflogedig, 1 GDG, a 5 GDG(Ll)).

HERIAU ELENI

Mae cynnal gwaith y Gyfarwyddiaeth yn her barhaus, gan fod mwyafrif y swyddogion yn cyfuno'u gwaith â gweinidogaethau eraill.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Mae cryn dipyn o waith y Gyfarwyddiaeth yn mynd yn ei flaen yn gyson. Yn y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Gyfarwyddiaeth yn bwriadu ychwanegu swyddog i gefnogi gweinidogaeth clerigwyr yn yr Esgobaeth sydd wedi ymddeol, ac yn arbennig y rheiny a fabwysiadodd statws Ymddeoledig Weithredol. Ein gobaith hefyd yw dwysáu ein cefnogaeth i weinidogaeth ffocal, creu adnoddau galwedigaethol ac adnoddau ychwanegol i Arweinyddion Addoliad. Rydym yn trafod fformiwláu newydd ar gyfer Cyfarwyddiad Ysbrydol. Rhywbeth arall sydd ar waith yw ystyried sut i annog a chefnogi gweinidogaeth leyg, mewn modd cyflawnach.

St Davids Diocese Ministry Directorate AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: 1st January 2019 to 31st December 2019
Author: Revd Canon Dr Rhiannon Johnson, Director of Ministry

MEMBERSHIP

The Ministry Directorate is chaired by The Archdeacon of Carmarthen and its members comprise the Archdeacons, the Director of Ministry, and the officers responsible for championing different forms of ministry development in the diocese. The Directorate meets formally three times a year, but the officers continue to work individually and collaboratively throughout the year. In 2019 a new warden of Readers was appointed and the former posts of officers for Continuing Ministerial Education and for Initial Ministerial Education have been combined and a new officer for Ministerial Education had been appointed. In 2019, JD. Laurence was appointed as St. Padarn's tutor for the Diocese and joined the directorate. Mrs Lindy Wainwright also became secretary for the Directorate and has been a huge blessing to us.

THE OBJECTIVES

The Ministry Directorate oversees the provision of lay and ordained ministry in the Diocese including discernment and training. The Directorate advises the Bishop on ministry policy, but its main focus is on delivery, co-ordination and ministry development.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

During this period, five new NSM(L) candidates have been sent to a Regional Discernment Panel in February 2020, one new stipendiary candidate has been accepted for training, and several other candidates for stipendiary ministry were ready for Provincial Discernment at the end of the reporting period; three diocesan discernment panels have been convened; two new Readers have been licensed; the Fellowship of Vocation has continued its vital work with a very successful conference in November; resources for worship leaders have been produces and a successful worship leaders' day was held. CME days have taken place including training on schools' work to which the headteachers of church schools were also invited. Our three-year experimental period linking the NSM(L) scheme with St. Padarn's ends in 2020. In 2019 we renegotiated this relationship.

At the end of 2019 in training for ordained and licensed ministers there were

- 10 in training (2 for stipendiary ordained, 1 NSM, 6 NSM(L), one for Reader Ministry)
- 11 in the early stages of ministry (2 newly licensed Readers, 9 deacons of whom 2 are stipendiary, 6 are NSM (L) and one is an ordained pioneer)
- 10 are in the later parts of curacy (4 stipendiary, 1 NSM, and 5 NSM(L)).

CHALLENGES THIS YEAR

Maintaining the Directorate's work is always a challenge, given that most of the officers combine their responsibilities with other ministries.

LOOKING FORWARD

Much of the Directorate's work is on-going. In the coming year, the Directorate is looking to add an officer to support the ministry of retired clergy in the Diocese, particularly those who take Active Retired status. We are hoping to improve our support for focal ministers, create vocational resources and more resources for Worship leaders. New protocols for Spiritual Direction are being discussed. We are also considering how to encourage and support lay ministry more fully.

Cyfarwyddiaeth Genhadol Esgobaeth Tyddewi AGENDUM 9
ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Ionawr i Rhagfyr 2019
Awdur: Hybarch Eileen Davies

AELODAETH Y GYFARWYDDIAETH
Mae'r Gyfarwyddiaeth Genhadol yn cydlynu gwaith sawl tîm: Cyfathrebu, Tyfiant Plwyfi, Plant & Ieuenctid, Cenhadaeth Fyd-eang, Eciwmeniaeth a Rhyng-ffydd dan gadeiryddiaeth Archddiacon Ceredigion. Bellach hefyd, cynhwysir mewnbwn gan Plant Dewi, ac, yn anffurfiol, gan y Grŵp Efengylu Esgobaethol sy'n gweithio ar wahân.

AMCANION
Mae'r Esgobaeth yn cynnal amrywiaeth o weinidogaethau all-weithredol. Er sicrhau cyd-ddealltwriaeth a chyd-anogaeth o waith y gweinidogaethau hyn, mae'r Gyfarwyddiaeth Genhadol yn cyfarfod droeon yn ystod y flwyddyn, i gyfnewid syniadau.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Parodrwydd i rannu syniadau a chydgynllunio gweithgareddau posib fu pennaf nodwedd y Gyfarwyddiaeth. Mae timau, er hynny, yn gweithredu'n unigol hefyd, gan dynnu, ar yr un pryd ar gryfderau ei gilydd er budd cenhadaeth yn gyffredinol yn Esgobaeth Tyddewi.
Da gwybod fod y Tîm Cyfathrebiadau yn cysylltu â phob rhan o'r Esgobaeth drwy rifynnau chwarterol Pobl Dewi, sy'n rhannu newyddion cyfoes ein heglwys ac yn trafod materion sydd o bwys i Gristionogion. Mae Cenhadaeth Fyd-eang yn ymwneud â'r prosiect yn Bukavu, ac yn sicrhau cymorth a chefnogaeth i'r mwyaf bregus yno, tra bu'r Tîm Eciwmeniaeth yn creu dolenni cyswllt ag amrywiol draddodiadau'r ffydd Gristionogol er mwyn cydrannu adnoddau addoli. Bu'r Tîm Rhyng-ffydd yn hynod brysur yn ystod y flwyddyn, gan estyn allan at y crefyddau eraill, yn enwedig y gymuned Foslemaidd, hyn yn dangos pa mor allweddol yw cyfnewid dealltwriaeth o'n hamrywiol werthoedd crefyddol. Mae Plant Dewi a Tir Dewi yn ymroi i rannu cariad Crist ymhlith teuluoedd ifainc a'r gymdogaeth wledig ledled yr Esgobaeth.

HERIAU ELENI
Mae'r Tîm Plant ac Ieuenctid yn cynnal asesiad llawn o'r gwaith o fewn yr Esgobaeth. Deil y Tîm Eciwmeniaeth i geisio cyfleoedd i hybu eglwysi i greu dolenni cyswllt â'r enwadau yn eu bröydd; mae hyn yn dwyn ffrwyth mewn rhai mannau, er fod lle i wella. Mae Tir Dewi'n bwriadu ymestyn i ambell Esgobaeth arall yng Nghymru, a bwrw fod y sefyllfa ariannol yn caniatáu.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Gyda golwg ar y Grŵp Efengylu Esgobaethol, y gobaith yw y bydd modd plannu eglwysi a thimau newydd ledled yr Esgobaeth.
Mae canolbwyntio ar blant a phobl ifainc yn allweddol bwysig, a bydd yr Esgobaeth yn ymdrechu i'r eithaf i ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

St Davids Diocese Mission Directorate AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: January to December 2019
Author: Venerable Eileen Davies

DIRECTORATE MEMBERSHIP
The Mission Directorate draws together the work of several teams: Communications, Parish Growth, Children & Youth, World Mission, Ecumenism and Interfaith under the chairmanship of the Archdeacon of Cardigan. It now also includes input from Plant Dewi, Tir Dewi, and informally from the Diocesan Evangelism Group which works separately.

THE OBJECTIVES
The Diocese maintains a variety of outward-focussed ministries. To make sure that these ministries have a measure of understanding of, and encouragement for each other's work, the Mission Directorate has met once during the last year to exchange ideas.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR
The main thing which the Directorate has been able to achieve is to borrow good ideas from one another and to come up with plans for things which might be done together.
However, teams work individually also, drawing from each others strengths, and having an impact on all aspects of Mission within the Diocese.
The Communications Team through Pobl Dewi are reaching the length and breadth of the Diocese, with a quarterly published magazine which shares up to date knowledge of what is happening within the Diocese, and discusses in depth topical issues. World Mission is engaged in the project in Bukavu, and ensures aid and support reaches the most vulnerable. Ecumenism have been building relationships with all the different traditions of Christian worship, and growing partnerships to share together resources for worship. Interfaith has seen the greatest need for building relationships across all the different faiths, especially within the Muslim community during the last year, and sharing from each others understanding of the core values of each of our faiths has been vital. Plant Dewi and Tir Dewi are working hard to share Christ's love with young families and the rural scene within the Diocese.

CHALLENGES THIS YEAR
Children and youth work team are undertaking major review of the role within the Diocese.
The Ecumenism Team continues to look for opportunities to enthuse churches at the local level for the vision of growing into unity with other denominations. There are places which have caught this vision but the team would hope to see more activity. Tir Dewi are looking forward to spread their wings in various other Diocese within the Church in Wales, when finances are in place.

LOOKING FORWARD
The Diocesan Evangelism Group, have their own identity and are looking forward to planting new churches and teams throughout the Diocese..
Work with children and young people is clearly vital, and the Diocese will be actively seeking ways to help foster new initiatives and develop existing ones in the year ahead.

Tîm Cyfathrebu Esgobaeth Tyddewi AGENDUM 9
ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod yr Adroddiad: 1 Ionawr -31 Rhagfyr 2019
Awdur: David Hammond-Williams

AELODAETH Y TÎM

Cymerais at awenau'r Tîm Cyfathrebu ym mis Medi 2019, wedi i'm rhagflaenydd fel Cadeirydd, yr Hyb Will Strange, ymddeol. Dymuna'r tîm cyfan fynegi gwerthfawrogiad i Will am ei arweiniad cadarn a'i ymdrechion diflino dros y tîm. Mae ein diolch hefyd yn ddyledus i'r Parch Jenny Kimber a'r Parch Peter Lewis, y naill a'r llall ohonynt wedi ymddeol o'r tîm yn ystod y flwyddyn ar ôl rhoi o'u gorau drosom. Yn sicr, gwelir eisiau eu gwybodaeth o'r cyfryngau a'u sgiliau ym myd darlledu. Ffarwelio fu'n rhaid â'r Parch Ian Aveson hefyd, aelod a olygodd, gyda gofal a manylder, y Calendr Ymbiliau (CY). Dymunwn yn dda iddynt oll ym mlynyddoedd eu hymddeoliad.
Yn wyneb colli'r unigolion uchod, bu'n rhaid ceisio aelodau newydd a doniau newydd i rannu yn y gwaith. O ganlyniad, gwelwyd y Parchedigion Shirley Murphy, Richard Davies a Viv Sayer yn ymuno â'r tlm. Eisoes bu eu cyfraniad yn gadarnhaol, a buom yn ffodus i Viv gytuno hefyd i fod yn olygydd y CY.

AMCANION

Amcan y tîm yw – ac felly y bu erioed – cyflwyno gwybodaeth am yr hyn y mae'r Esgobaeth a'i haelodau wedi ei gyflawni, a hefyd yn bwriadu ei gyflawni, gan wneud hynny mewn modd mor ystyrlon a chynhwysfawr â phosib; gobeithiwn, yn ogystal, wella, hyd y gallwn, ddulliau cyfathrebu ar bob lefel, yn enwedig mewn cyfnod pan fo AddGLl yn amlygu eu hunain o'r newydd.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

- Mae cynhyrchu a dosbarthu *Pobl Dewi'n* parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm. Mae cyhoeddiad printiedig mor bwysig ag y bu erioed ond ychwanegir at y fersiwn arlinell drwy gynnwys mwy o wybodaeth ar dudalennau *PDExtra,* gyda chyfieithiadau o erthyglau a ymddangosodd yn y Gymraeg.
- Mae cynhyrchu'r Calendr Ymbiliau eto'n gamp, ac o dan ofal ei olygydd newydd, mae'n dal i ennyn cryn ganmoliaeth am ei gywirdeb ac am fod yn amserol.
- Gwelwyd y dasg o ddatblygu gwefan Gymraeg annibynnol yn symud ymlaen yn hwylus, a rhaid diolch i Lois Williams am wireddu'r dyhead hwn a fu gennym ers tro; bu ei hymroddiad hithau yn allweddol, o ran llwyddiant y gwaith.
- Bu'r tîm, ers tro, yn ymwneud â thwristiaeth ffydd, a diolch i'n Swyddog Twristiaeth Ffydd, Caroline Evans, am ei gwaith hithau yn codi proffil yr Esgobaeth fel cyrchfan bwysig i dwristiaid ar hynt ysbrydol, a hynny'n lleol a chenedlaethol.
- Rhaid crybwyll ymroddiad ein carfan wirfoddolwyr, dan arweiniad y Parch Sophie Whitmarsh, am sicrhau, unwaith eto, bresenoldeb gweladwy yr Esgobaeth yn Sioe Sir Benfro, a diolch iddynt am eu brwdfrydedd. Roedd y digwyddiad eleni yn fwy ac yn fywiocach nag y bu erioed. Rhaid fu diddymu sioe 2020 o ganlyniad i bandemig y Coronavirus; ond hyderwn weld y trefniadau ar waith unwaith eto yn 2021.
- Daeth fideo i fod yn gynyddol bwysig i ni, o ran trefniadau cyfathrebu. Mae Esgob Joanna yn arbennig, wedi bod yn frwd ei chroeso i'r cyfrwng hwn. Bu ei chyfres fideo ar gyfer y Garawys a 'Deled Dy Deyrnas' yn gyfraniad pwysig i'r hyn a gynhyrchwyd gennym o ran litwrgi a deunydd addoli, a bu cryn ganmol i'r cyfan.

St Davids Diocese Communications Team AGENDUM 9

ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: 1 January -31 December 2019
Author: David Hammond-Williams

TEAM MEMBERSHIP

I took over as Chairman of the Communications Team in September 2019 following the retirement of my predecessor, Ven Will Strange. The whole team wishes to express its gratitude to Will for his steadfast chairmanship and his tireless efforts on the team's behalf. We are similarly thankful for the invaluable contributions of Revd Jenny Kimber and Revd Peter Lewis, who also retired from the team during the year. Their knowledge of the media and broadcasting skills will be sorely missed. We also said goodbye to Revd Ian Aveson, our meticulous editor of the Calendar of Intercessions (CoI). We wish them all well in their retirement.

These departures have necessitated a probably overdue search for new faces and skills to join us. And we have had some success, with Revd Shirley Murphy, Revd Richard Davies and Revd Viv Sayer joining the team. All are already making a valuable contribution to our work including, in Viv's case, taking over the editorship of the CoI.

THE OBJECTIVES

The team's objective is – and has always been - to communicate the aims, objectives and achievements of the diocese – and those of its members - as clearly and as comprehensively as it can and to assist wherever possible to improve communications at every level, especially at a time when LMAs are forging their new identities.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

- Producing and distributing *Pobl Dewi* remains a significant aspect of the team's work. A print publication is as important as ever, but the online version is complemented with more information on the *PDExtra* pages, including translations of articles printed in Welsh.
- Producing the Calendar of Intercessions is another feat and under its new editorship continues to attract widespread praise for its accuracy and timeliness.
- Substantial progress has also been made with the development of a stand-alone Welsh language website and our thanks are due to Lois Williams, who has been largely responsible for making this long-held aspiration a reality and whose commitment to it has been key to its success.
- Faith tourism has long been an important element of the team's work and we are grateful to our new Faith Tourism Officer, Caroline Evans, for her work in enhancing the diocese's profile as an important faith tourism destination at both local and national level.
- Our able band of volunteers, led by Revd Sophie Whitmarsh, excelled themselves once again in their handling of the diocese's presence at the Pembrokeshire Show and our thanks go to them also. This year's event was bigger and brighter than ever. Sadly, the 2020 show has been cancelled due to the Coronavirus pandemic. But we are confident they will be back with a bang in 2021.
- Video has become an increasingly important tool in our communications strategy. Bishop Joanna, in particularly, has embraced this medium with enthusiasm. Her video series for Lent and Thy Kingdom Come have been an important contribution to the liturgical/worship content of our output and have been well received.

YR HERIAU ELENI

Prif her y tîm fu ceisio cael aelodau newydd i ymuno, yn lle y rheiny a wnaeth ymddeol, fel a nodwyd uchod. Er i ni groesawu ambell wyneb newydd, mae'r tîm yn eiddgar i weld eraill yn ymuno, yn arbennig aelodau iau a chynrychiolwyr lleyg. Mae'r chwilio wedi cychwyn a nifer wedi mynegi diddordeb; gobeithir mynd â'r maen i'r wal cyn diwedd 2020. Croeso i unrhyw un awgrymu enwau addas.

Profwyd problem arall, sef anhawster ynglŷn â dosbarthu *Pobl Dewi,* a hithau'n adeg newidiadau pellgyrhaeddol o ran strwythur a threfniadaeth esgobaethol. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni ddiwygio ein sustem i adlewyrchu'r amodau newydd, a daethom i ben â hynny i raddau helaeth, ond erys ambell rwystr; y gobaith yw datrys y rhain yn raddol, wrth i AddGLl gael eu traed danynt.

EDRYCH TUAG YMLAEN

- Mae'r newid yn aelodaeth y tîm wedi peri i ni adolygu llawer o'n gwaith a dulliau gweithredu. Bydd hyn yn brosiect pwysig ar gyfer 2020. Gwyddom, yn sicr, beth yw beth o ran ein gwaith fel tîm, ond mae angen bod yn siwr ai dyna mae'r Esgobaeth a'i phobl yn ei ddymuno gennym, ai peidio.

  Yn arbennig, rydym yn awyddus i ailasesu'r egwyddorion sy'n ysgogi ac yn llywio'r modd y cynhyrchir *Pobl Dewi.* Sefydlwyd gweithgor, dan gadeiryddiaeth gŵr a fuasai gynt yn gadeirydd y tîm hwn, Canon John Holdsworth, a daw'r argymhellion a gyflwynir yn sail i'r adolygiad.

  Mae trefniadau ar waith hefyd i lunio strategaeth gyfathrebu gymwys ar gyfer yr Esgobaeth, hynny law yn llaw â staff hŷn yr Esgob.
- Mae'r tîm yn eiddgar hefyd i nodi cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant TG ar gyfer pobl sydd â chyfrifoldeb am gyfathrebu ar lefel AWL. Lluniwyd holiadur a anfonir allan pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.
- Mae newidiadau sylweddol ar droed gogyfer â'r gwefannau esgobaethol, a bwriedir ail-lunio'r cyfan – am y tro cyntaf mewn saith mlynedd. Y dalaith sy'n gyfrifol am y syniad a bydd disgwyl i ninnau gydymffurfio.
- Gobeithiwn drefnu llunio Blwyddlyfr Esgobaethol newydd, gan fod y newid mawr i AddGLl bellach bron ar ben. Mae sawl peth i'w datrys ynglŷn â hyn, ond sylweddolwn ei bod yn hen bryd dwyn cyfeirlyfr cyfoes am fywyd yr esgobaeth i olau dydd.

CHALLENGES THIS YEAR

The principal challenge facing the team is the need to recruit new members, following the retirements alluded to above. Although some new blood has come forward, the team is keen to see new faces come on board, particularly younger faces and lay representation. We have started our search and several people have expressed an interest and our search will continue through 2020. Suggestions of possible new members are welcome.

Another has been logistical difficulties affecting delivery of *Pobl Dewi* at a time when diocesan structures are changing radically. As a consequence, we have had to reform our system to reflect the new reality and this process has been largely achieved, although there are still some glitches which we hope to resolve as time goes on and LMAs find their feet.

LOOKING FORWARD

- The changes in membership of the team have prompted us to review much of the work that we do and the ways in which we do it. This will be an important project for 2020. We are confident we know what we are doing but need to establish whether or not it is what the diocese and the people in it wish us to do.

  In particular, we are keen to re-assess the guiding principles that govern our approach to *Pobl Dewi.* A working group has been set up, chaired by a former chairman of this team, Canon John Holdsworth, and its recommendations will form the basis of the review.

  Work is also under way to formulate a coherent communications strategy for the diocese, in close collaboration with the Bishop's senior staff.
- The team is also interested to identify areas in which IT training can be provided to those with responsibility for communications at LMA level. A questionnaire has been put together and will be circulated once circumstances permit.
- Major changes are planned for the diocesan websites, with a complete revamp – the first for seven years – in the pipeline. This is a provincial initiative which we will be expected to follow.
- It is hoped that a new Diocesan Yearbook can be compiled and produced now that the transfer to LMAs is almost complete. There are a number of outstanding issues to be resolved but we recognize that an up-to-date directory of diocesan affairs is overdue.

Yr Archddiaconiaeth dros Gymunedau Cristionogol Newydd *'Y Bedwaredd Archddiaconiaeth'*, Y Tîm Efengylu ac Efengyleiddio

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL AGENDUM 9

Cyfnod yr Adroddiad: Ionawr 2019 – Rhagfyr 2019

Awdur: Hyb Mones Farah, Archddiacon dros Gymunedau Cristionogol Newydd ac Efengylu

Canolbwyntiwyd yn 2019 ar lunio cais am gymhorthdal ariannol gogyfer ag efengylu, oddiwrth yr Eglwys yng Nghymru. I'r perwyl hwnnw, cyfarfu'r Gweithgor Grant Efengylu yn rheolaidd er mwyn trefnu llunio'r cais, a dechreuwyd hefyd chwilio am leoliadau addas ar gyfer gweinidogaeth yn y ddwy gymuned a nodwyd gennym. Bu'r cais yn llwyddiannus yn y pen draw, a derbyniasom £1.9 Miliwn. Rydym yn bur ddiolchgar i'r Gweithgor, hefyd am gefnogaeth y Bwrdd Cyllid Esgobaethol a'r staff oll, ein Hesgob, ei Chaplan Caroline Mansell, y Pwyllgor Sefydlog Esgobaethol a Mr R Mansell; drwy eu cymorth hwy y medrwyd sicrhau cyllid er mwyn sefydlu'r canolfannau.

Bu'r gymuned genhadu ym Merlins Bridge ar waith ers tair blynedd, a chanddi leoliad eisoes. Bydd y ganolfan ym Morfa, Llanelli'n gweithredu o Gapel Bedyddwyr Emmanuel ym Morfa yn y dref, a mae prif efengylydd dynodedig y gymuned newydd honno yn barod i ymgymryd â'i swydd newydd yn 2020.
Cafwyd anhawster chwilio lleoliad ar gyfer y ganolfan yn Crosshands, ond, wedi cam gwag ar y cychwyn, penderfynwyd ar safle delfrydol yn hen sinema'r dre, a mae'r arweinydd newydd wedi dechrau gweithio oddi yno.
Wrth ddatblygu canolfannau'r Morfa a Merlins Bridge, gwelwyd cryfhau'r dolenni cyswllt eciwmenaidd â'r Bedyddwyr a hefyd â'r Methodistiaid yn y naill ardal a'r llall; enw newydd prosiect cenhadu y tair canolfan gyda'i gilydd yw 'Impact 242 Mission Centres' neu 'Canolfannau Cenhadu 242'.

Gwelir y Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol a Plant Dewi yn cael eu cyplysu dan faner y Bedwaredd Archddiaconiaeth, a bydd yna ddatblygu pellach, law yn llaw â hwy a'u timau, gyda hyn.

Cyfarfu'r Tîm Efengylu gydol y flwyddyn, gan drafod dwyn Efengylu at wraidd bywyd yr Esgobaeth. Nid rhwydd fu trefnu dyddiadau a lleoliadau pendant ar gyfer digwyddiadau, ac o ganlyniad bu'n rhaid gohirio ein gweithgaredd undydd tan ddechrau 2020. Fodd bynnag, dechreuwyd ail-adeiladu'r Tîm, ar hyd y flwyddyn, a hynny drwy wahodd aelodau newydd, yn lleygwyr ac ordeiniedig.

Efengylu a'r Tîm Efengyleiddio

AELODAU'R TÎM

Y Gwir Barchedig Esgob Tyddewi, Hyb Dorrien Davies, Hyb Mones Farah (Cadeirydd), Hyb Paul Mackness, Parch Ddr Emma Whittick, Mr David Hammond Williams, Parch Ganon M Rowlands, y Chwaer Val Legg, Parch Victoria Jones, Parch Ganon Alan Chadwick, Parch Caroline Mansell.

AMCANION

Annog a hyrwyddo gwaith efengylu, cenhadu, tystio a thyfiant eglwysig yn yr Esgobaeth. Canolbwyntiwyd eleni ar feithrin efengylu a thystio, fel elfennau allweddol ynom ac yng nghalon yr Esgobaeth, hefyd yng nghalon ein HddGLl. Cyfarfu'r Tîm ar hyd y flwyddyn, er mwyn datblygu a manwl-gyfeirio'r Strategaeth Efengylu ar gyfer yr Esgobaeth.

Archdeaconry of New Christian Communities

'The Fourth Archdeaconry', Evangelism and the Evangelisation Team

ANNUAL SUMMARY REPORT AGENDUM 9

Reporting period: January 2019 – December 2019

Author: Ven Mones Farah, Archdeacon for New Christian Communities and Evangelism

The focus of 2019 was centred on producing a bid for funding for evangelism from the Church in Wales. To that effect the Evangelism Grant Working Group met regularly to formulate the bid and we also began our search for suitable venues from which Ministry could be exercised in the two new identified communities. The bid we submitted was ultimately successful and we were granted £1.9 Million. We are very grateful to the Working Group and for the support of the Diocesan Board of Finance and its staff, our Bishop, her Chaplain Caroline Mansell, the Diocesan Standing Committee and Mr R Mansell, for their support in enabling the centres to obtain funding and become established.

The Mission community in Merlins Bridge has been operating for three years and already had a venue. The Centre in Morfa, Llanelli will be based at the Emmanuel Baptist Chapel in Morfa, Llanelli, and the designated lead evangelist of this new community is waiting to take up his new role in 2020.
Finding a venue for the Centre in Crosshands was difficult but after an initial stumble we found an exceptional venue at the former town cinema from which the identified leader started to work.
In developing the centres at Morfa and Merlins Bridge we have invested in strengthening the ecumenical relationships with the Baptists and Methodists in each respective area. and the outreach project of the three centres was rebranded collectively as 'Impact 242 Mission Centres'.

The Diocesan Council on Social Responsibility and Plant Dewi are now to join in the Fourth Archdeaconry's brief and further development with them and their teams will be initiated in due course.

Throughout the year the Evangelism Team met and discussed ways to bring a focus on Evangelism to the heart of our diocesan life. Suitable venues and dates for events proved to be harder to book than we hoped and so a planned day was postponed until the beginning of 2020. However, throughout the year we began to rebuild the Team with both new lay and ordained members.

Evangelism and the Evangelisation Team

TEAM MEMBERS
The Right Rev Bishop of St Davids, Ven Dorrien Davies, Ven Muwanes Farah (Chair), Ven Paul Mackness, Rev Dr Emma Whittick, Mr David Hammond Williams, Rev Canon M Rowlands, Sister Val Legg, Rev Victoria Jones, Rev Canon Alan Chadwick, Rev Caroline Mansell.

OBJECTIVES
To encourage and facilitate evangelism, outreach, witness, and church growth in the Diocese. The focus for this year has been the instilling of evangelism and witness into the heart of who we are as a Diocese and into our LMAs. The Team met through the year to develop and fine-tune the Evangelism Strategy for the Diocese.

YR HYN A GYFLAWNWYD

Cynhaliwyd ambell ddigwyddiad dan nawdd y Tîm yn ystod y flwyddyn; daeth nifer dda ynghyd, yn offeiriaid a lleygwyr o bob rhan o'r Esgobaeth, ar gyfer cyfarfod deuddydd dan arweiniad Esgob Graham Cray, gan drafod syniadau newydd er chwyldroi efengylu. Cafwyd Dydd Adnewyddiad yn y Gadeirlan wedi hynny, a'r Band Addoli 'The Sound of Wales' yn arwain yr hwyl.

Cynhaliwyd Deued dy Deyrnas ym mis Mai, gydag un cyfarfod gweddi ymhob Archddiaconiaeth h.y., yng Nghastellnewydd Emlyn, Hwlffordd a Crosshands.

Trefnwyd Rhan Dau o Hyfforddiant Efengylu ar gyfer dau/dwy glerig a dwy/dau leygwr o bob AWL, a hynny yn y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin. Bu'n ddiwrnod hwyliog a heriol, dan arweiniad aelodau'r Tîm.
Gwelwyd digwyddiadau Ymbiliol yn cael eu cynnal bob yn ail fis drwy'r flwyddyn i weddïo dros yr Esgobaeth a thros ei chenhadaeth i'w chymunedau gwasgaredig.

Calonogol yw gweld aelodau'r tîm ac eraill yn cefnogi pobl sy'n frwd eu gweledigaeth dros genhadu'n lleol, a thros ddatblygu cyfleoedd i blannu eglwysi perthnasol yn eu bröydd; y gobaith yw gweld hyn yn parhau ac yn lledaenu ar draws yr Esgobaeth.

Diolch o galon i aelodau'r tîm oll am eu hymroddiad wrth gynllunio a llywio digwyddiadau pwysig a llwyddiannus y flwyddyn.

YR HERIAU ELENI

- Darparu adnoddau ar gyfer yr AddGLl o ran hyfforddi a chefnogi, gan roi'r modd a'r hyder iddynt ymafael â'r dasg o genhadu ac efengylu, ac ymglywed, ar yr un pryd, â chyfyngiadau ariannol a daearyddol yr Esgobaeth.
- Canfod a hyfforddi Pencampwr Efengylu a Thystiolaethu ymhob AWL.

EDRYCH TUAG YMLAEN

Mae cynlluniau ar waith gennym ar gyfer dydd gweddïau Deued Dy deyrnas a digwyddiad Hyfforddi Storïwyr, y naill a'r llall ym Mehefin a Gorffennaf 2021.

ACHIEVEMENTS

The Team hosted a few events throughout the year; a two-day event with Bishop Graham Cray, considering fresh expressions was well-attended and supported by clerics and lay people from across the Diocese. This was followed by a Day of Renewal at the Cathedral with worship led by The Sound of Wales Worship Band.

Thy Kingdom Come was held in May, with one intercessory meeting in each of the Archdeaconries i.e., in Newcastle Emlyn, Haverfordwest and Crosshands.

Part Two of Evangelism Training was held for two clerics and two lay people from each LMA in Trinity Carmarthen. It was an encouraging and challenging day led by the Team members. Intercessory prayer events were held bi-monthly throughout the year with the aim of praying for the Diocese and its outreach to its wider communities.

I am pleased to see how the team members and others have supported those with local passion and vision in delivering outreach and mission, to develop opportunities to plant relevant churches in their localities, something which is hoped will continue to expand throughout the Diocese.

My grateful thanks to all the team members for all the hard work they put in to planning and running the important and successful events that were held.

CHALLENGES THIS YEAR

- Resourcing the LMAs with training and support, giving them the tools and confidence to engage with the varied ways of outreach and evangelism, whilst being aware of the financial constraints and geographical constraints of the Diocese.
- Identifying and training an Evangelism and Witness Champion in every LMA.

LOOKING AHEAD

We are planning Thy Kingdom Come prayers and a Story Telling Training event in June and July 2021 respectively.

Bwrdd Enwebiadau Esgobaeth Tyddewi AGENDUM 9
ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Ionawr 2019 – Rhagfyr 2019
Awdur: Parch Caroline Mansell, Ysgrifennydd Clerigol

AELODAETH Y BWRDD
Cadeirydd y Bwrdd Enwebiadau yw Esgob Tyddewi, y Gwir Barch Ddr Joanna Penberthy, gyda'r canlynol yn aelodau ex-officio; Archddiaconiaid Ceredigion, Caerfyrddin a Thyddewi, ynghyd â'r Ysgrifennydd Clerigol. Mae yna, yn ogystal, ddau/ddwy glerig etholedig, un aelod lleyg wedi ei (h)ethol o bob Archddiaconiaeth; ac un aelod cyfetholedig.

AMCANION
Prif amcan y Bwrdd Enwebiadau yw asesu a chynnal lefelau staffio ar gyfer yr Esgobaeth, mewn modd effeithiol, a hynny yn unol ag amcanion cenhadol a gweinidogaethol yr Esgobaeth, ynghyd â'r cyllidebau ariannol sydd ar gael. Y Bwrdd, wedyn, sy'n gyfrifol am y broses recriwtio ar ran yr Esgobaeth.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r Bwrdd, yn ôl y bwriad, bob chwarter, oddieithr un cyfarfod y bu'n rhaid ei ohirio oherwydd tywydd anffafriol. Cadwodd y Bwrdd Enwebiadau lygad barcud ar anghenion staffio clerigol yr Esgobaeth ar hyd y cyfnod o newid bugeiliol a ffurfio'r AddGLl newydd. Mae sicrhau dosbarthiad teg a theilwng o glerigiaid, ar hyd a lled yr Esgobaeth, yn un o brif amcanion yr AWL. Mae i bob AWL nifer benodedig o glerigiaid cyflogedig, y disgwylir iddi ei hanrhydeddu; er hyn, erys ambell AWL â llai na'r nifer a argymhellwyd, a thalwyd sylw arbennig gan y Bwrdd i'r ardaloedd hynny. Llwyddwyd i gyflogi clerigwyr ar gyfer Hwlffordd, Doc Penfro, Caerfyrddin, Aberdaugleddau, Aberystwyth (2 berson) a Bro Lliedi. Llanwyd rhai o'r swyddi hyn gan symudiad ambell offeiriad ac ad-drefnu plwyfi/ardaloedd, tra bo 3 pherson o esgobaethau eraill Cymru wedi ymuno â ni. Hefyd, cynigiwyd swyddi cyflogedig i 3 offeiriad GDG(Ll), gan brofi y gall y cynllun GDG(Ll) fod yn fagwrfa clerigwyr cyflogedig cadarn, yn ogystal â bod yn sail i weinidogaeth leol. Mae gosod ein curadiaid oll o fewn i derfynau'r Esgobaeth ar derfyn eu hyfforddiant yn nod parhaus, a dyna fu'r hanes eleni.

HERIAU ELENI
O nesau at ddiwedd proses sefydlu'r AddGLl, wele ryw lun o drefn i'r mynd a dod ymhlith clerigwyr, wedi blwyddyn ddigon ansicr yn 2019, a'r ail-strwythuro'n galw am weinidogaeth gyflogedig ychwanegol mewn ambell ardal, a brys llanw swyddi gweigion.

Bu'n dasg anodd hefyd cadw at y nifer clerigwyr y cytunwyd arni sef 84. O groesi'r cyfanswm hwn mae yna oblygiadau ariannol yn lleol, a bydd cynnydd yng Nghyfran y Weinidogaeth yn anochel. Gwelir isod y sefyllfa yn ystod y tair blynedd olaf:-
Ionawr 2017: 89.5 gweinidog cyflogedig.
Ionawr 2018: 83.5.
Ionawr 2019: 82.5

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Bydd yn rhaid cynnal amcanion cenhadol a gweinidogaethol yr Esgobaeth, gan sicrhau, ar yr un pryd, y bydd talu am y clerigwyr yn gynaliadwy. Bydd nifer y clerigwyr sy'n ymddeol yn cynyddu'n raddol yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ychwanegu at y baich recriwtio, ond yn gyfle hefyd i gwtogi ar y costau.

St Davids Diocese Board of Nominations AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: January 2019 – December 2019
Author: Revd Caroline Mansell, Clerical Secretary

BOARD MEMBERSHIP
The Board of Nominations is chaired by The Bishop of St Davids, The Right Revd Joanna Penberthy and its members comprise the Archdeacon of Cardigan, Archdeacon of Carmarthen, Archdeacon of St Davids and the Clerical Secretary, all as Ex - officio members. Additionally there are two elected clergy; one lay member elected from each Archdeaconry; and one co-opted member.

THE OBJECTIVES
The main objective of the Nominations Board is to assess and maintain staffing levels effectively in the Diocese, in line with Diocesan mission and ministry objectives and financial budgets. The Board then manages the recruiting process for the Diocese.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR
The Board has met quarterly as planned apart from one meeting which was postponed due to hazardous weather conditions. The Nominations Board has keenly monitored clergy staffing needs in the Diocese throughout the changing landscape of LMA formations. Ensuring a fair and efficient deployment of clergy across our Diocese is one of the main objectives of the LMA. Each LMA has a target stipendiary number to which it is expected to adhere; some however remain below their recommended number, and it is in these areas where the Board has given its attention. It has been successful in hiring clergy in Haverfordwest, Pembroke Dock, Carmarthen, Milford, Aberystwyth (2 people) and Bro Lliedi. Some of these posts have been filled by clergy movements and reorganisations whilst 3 positions have attracted people from other diocese within the Church in Wales. Also, 3 NSM(L) priests have been offered stipendiary positions, evidencing that the NSM(L) programme can be a vehicle for growing strong, stipendiary clerics as well as providing a foundation of local ministry. Placing all our curates within the Diocese after their training, is something we always strive to do and this year this was achieved.

CHALLENGES THIS YEAR
As we come to the end of the LMA inauguration process, clergy movement is beginning to settle down after an unsettled year in 2019 where the restructuring brought to light areas where more stipendiary ministry was required and vacancies needed to be filled with some urgency.

Maintaining an overall clergy number to the budgeted number of 84 has also been a difficult task. Exceeding this target has financial implications locally and drives up ministry share levels. The statistics show how this has been managed:-
January 2017: 89.5 stipendiary clerics.
January 2018: 83.5.
January 2019: 82.5

LOOKING FORWARD
The continuing challenge is to manage Diocesan mission and ministry objectives whilst maintaining Diocesan clergy costs at acceptable levels. The numbers of clergy retirements begins to increase over the coming years, putting added pressure on the recruitment process but could also bring opportunities to reduce costs.

Bwrdd Persondai AGENDUM 9

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Ionawr – Rhagfyr 2019
Awdur: Mr N Roberts Cadeirydd / Mrs N Evans BA FCCA, Rheolwr Cyllid

AELODAETH Y BWRDD
Cyfarfu'r Bwrdd Persondai yn chwarterol yn ystod y cyfnod dan sylw, â Mr Nigel Roberts yn y gadair. Mae'r canlynol yn aelodau'r Bwrdd: yr Esgob, yr Archddiaconiaid, cynrychiolwyr clerigol a lleyg, cynrychiolydd cymheiriaid clerigiaid, ynghyd ag aelodau cyfetholedig sydd ag arbenigedd mewn meysydd megis rheoli eiddo, gwerthuso ac adeiladu. Yn bresennol hefyd y mae Arolygydd y Bwrdd Persondai a Phennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo Corff y Cynrychiolwyr, ynghyd â'r Ysgrifennydd Esgobaethol a'r Rheolwr Cyllid.

AMCANION
Rheoli portffolio ficerdai yr Esgobaeth yn unol â'r anghenion gweinidogaethol, cynnal a chadw'r cyfryw adeiladau i safon uchel, a threfnu'r rhaglen ail-fuddsoddi.

ADOLYGIAD 2019
Derbyniwyd cyfanswm incwm, o ran y Gronfa Drwsio, o £837,978; gwariwyd £745,452, gan adael gweddill o £92,526, felly, ar 31ain Rhagfyr 2019.
Cynhwyswyd, yng nghynllun gwariant y flwyddyn, y rhaglen gynnal a chadw arfaethedig i lanhau cafnau a phibau dŵr toeon y tai, sicrhau effeithiolrwydd y tanciau septig, y larymau lladron, y teclynnau nwy ac olew, y sustemau trydan (archwiliad 5-mlynyddol), rheoli asbestos a chyflwyno adroddiadau legionella. Mae'r gwaith o osod synhwyrydd carbon monocsid ymhob tŷ yn parhau, yn unol â'r rhaglen-dreigl 4-blynedd y cytunwyd arni. Paentiwyd 7 ficerdy yn ystod y cyfnod, dan amodau'r rhaglen gynnal a chadw arferol ond bu'n rhaid gohirio 5 arall tan 2020 oherwydd tywydd gwael. Rhaid gwario cryn dipyn wrth i glerigwyr symud o blwyf i blwyf, er mawr bwysau ar ysgwyddau'r Arolygwr. Mae gwaith trwsio ac ailosod ffenestri a chafnau UPVC newydd ac ati, yn parhau, ond y gost yn llai yn y pen draw gan nad oes angen cymaint o waith cynnal a chadw.
Cwblhawyd codi ficerdy newydd yn Hendy–gwyn ar Daf, a phrynwyd tŷ ychwanegol yn Llanelli. Gan mai prin fu'r diddordeb yn ficerdy San Pedr, Caerfyrddin, fe'i neilltuwyd dros dro a'i ail-farchnata yng Ngwanwyn 2020. Gwerthwyd y tai yng Nghas-wis a'r Tymbl, a mae sawl ficerdy eto ar werth, gan gynnwys Laura Place, Aberystwyth.

Mae 21 o dai wedi eu gosod, a 5 yn wag at ddefnydd clerigwyr. Telir sylw manwl i nifer tai gwag yr Esgobaeth, a'r staff hŷn yn gwneud eu gorau i sicrhau fod defnydd arnynt.

Ar 31 Rhagfyr 2019 roedd gweddill o £1,680,505 yn y gronfa welliannau, a nod y Bwrdd yw cadw £1 miliwn wrth gefn er mwyn codi tri ficerdy newydd pan fo angen amdanynt, ynghyd â £100k ychwanegol ar gyfer gwella'r tai presennol.

HERIAU
Mae yna ffactorau enbyd, megis y fasnach dai heriol ac ansicr yn yr Esgobaeth, sy'n effeithio ar y gwaith o ymdrin ag eiddo; hefyd y problemau sy'n codi o ran tai hŷn, oherwydd ansicrwydd perchnogaeth a chyfamodau cyfyngol. Mae oedi'n digwydd, yn ogystal, o ran cwblhau gwerthiant, pan fo darpar brynwyr yn ceisio trefnu cyllid morgais, yn arbennig lle bo gofyn adnewyddu'r eiddo. Hefyd mae isafswm meincnodau EPC yn cael eu codi o E i D, a bydd oblygiadau dwys o ran rhentu'r tai, os bydd codiadau pellach, â sawl ficerdy'n methu'r prawf.

Parsonage Board AGENDUM 9

ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: January – December 2019
Author: Mr N Roberts Chair / Mrs N Evans BA FCCA, Finance Manager

BOARD MEMBERSHIP

The Parsonage Board met quarterly during the period under the chairmanship of Mr Nigel Roberts. Membership of the board is comprised of the Bishop, Archdeacons, clerical and lay representatives, a clergy spouse representative and co-opted members who have specialism in matters such as property management, valuation and construction. The Parsonage Board Inspector and the Assistant Head of Property Services for the Representative Body also attend together with the Diocesan Secretary and Finance Manager.

THE OBJECTIVES

To manage the Diocesan portfolio of vicarages according to the ministry needs and to maintain these buildings to a high standard and to manage the reinvestment programme.

REVIEW OF 2019

The total income for the year for the Repairs Fund amounted to £837,978 which, after expenditure of £745,452 resulted in a surplus as at 31st December 2019 of £92,526.

Included in the year's expenditure was the planned maintenance programme to clean gutters and down pipes, servicing septic tanks and intruder alarms, the servicing of gas and oil appliances and the 5-yearly inspection of electrical installations, asbestos management and legionella reports. The installation of carbon monoxide detectors in every property continues within the agreed 4-year rolling programme. The planned maintenance painting programme during this period accounted for 7 repaints and a further 5 being curtailed because of bad weather and these have been rolled over into 2020. Ongoing expenditure on house movement is significant and forms a large part of the Inspector's workload. Upgrading and replacement of UPVC windows, fascias, and gutters/downpipes carries on leading to a longer timespan between redecoration and reduced costs for external maintenance.

A new build was completed in Whitland and an additional property purchased in Llanelli. Carmarthen St Peters has been taken off the market because of limited interest and will be relaunched in the Spring of 2020. Sales of Wiston and Tumble were completed and there are several properties on the market including Laura Place, Aberystwyth.

21 properties are rented and 5 empty properties are reserved for clergy use. The number of empty properties is very tightly managed, and the Senior Staff have made significant progress in utilising all vacant properties within the Diocese.

As at 31 December 2019 the balance of the Improvement fund was a surplus of £1,680,505 and the Board's objective is to retain £1 million in reserves to construct three new vicarages at any given time together with an additional £100k to be retained as a floating fund for the upgrading of existing property.

CHALLENGES

The challenges continue to be in responding to the external factors affecting property management not least the variable and challenging property market in the Diocese and the issues in dealing with older properties such as defective title and restrictive covenants. Also, the long process for prospective purchasers to obtain confirmation of mortgage funding causes delays in the completion process particularly where there is a refurbishment spend. EPC minimum benchmarks are being raised from E to D with any further uplift have implications for our portfolio of rented properties which many becoming non-compliant.

Pwyllgor Eglwysi & Bugeiliol Tyddewi (PEB) AGENDUM 9
ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: 1af Ionawr 2019 – 31ain Rhagfyr 2019
Awdur: Hyb Paul Mackness – Cadeirydd PEB

AELODAETH Y PWYLLGOR
Dyma gyfansoddiad y pwyllgor: tri o Archddiaconiaid yr esgobaeth, Cadeirydd neu Is-gadeirydd y BCE, Cadeirydd y PYE neu aelod arall a enwebwyd ganddo, tri aelod wedi eu hethol gan y Gynhadledd Esgobaethol o blith ei haelodaeth ei hun, a thri aelod wedi eu penodi gan Esgob Tyddewi. Mae aelodau a enwebwyd ac a etholwyd yn parhau yn eu swydd am 6 mlynedd.

AMCANION
Cyfrifoldeb y Pwyllgor Eglwysi & Bugeiliol yw cadw golwg ar yr angen fugeiliol am adeiladau eglwysig yn yr Esgobaeth a chynnig cyngor perthnasol i'r Esgob ac i'r Gynhadledd Esgobaethol. Mae'n dal i gyflawni ei rôl fugeiliol, gan gynghori hefyd ynglŷn â chymorthdaliadau a benthyciadau mewn perthynas ag adeiladau eglwysig; gweinyddir, yn ogystal, y cynllun archwilio eglwysi – y Cwincwennial – ynghyd â phroses ddatgan eglwysi yn ddiangen.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r PEB 4 gwaith eleni yn ôl y bwriad, a daw 2019 â ni i derfyn y cyfnod aelodaeth 6 mlynedd, sy'n golygu y bydd PEB newydd yn cychwyn arni o 1af Ionawr 2020. Derbyniwyd ceisiadau pellach eleni gan eglwysi yn dymuno eu dynodi yn "eglwysi pererindod". Prin fu'r galw am gau eglwysi yn ystod y flwyddyn ond, o sylweddoli fod cyfnodau anodd i ddod – lleihâd cynulleidfaoedd eto – fe allai'r darlun newid yn sydyn. Cyflwynodd yr ysgrifennydd drefn i sicrhau fod adroddiadau manwl ynglŷn â chyflwr y trydan, yn eu lle, ac y mae hyn o fantais, yn ddios.

HERIAU ELENI
Un o'r mwyaf o ran y PEB, yw sicrhau, pan fo angen cau eglwysi, fod canllawiau penodedig y broses yn cael eu dilyn. Hefyd bu'n her egluro'r gwahaniaeth rhwng bod yn *eglwys ŵyl* (Eglwys Loegr) a bod yn *eglwys bererindod* (Eglwys yng Nghymru). Awgrymwyd posibilrwydd defnyddio rhai eglwysi fel mannau lletya ar gyfer seiclwyr sy'n teithio'r Esgobaeth. Mae hi'n ddyddiau cynnar o ran y syniad hwn, ond bydd yn ddefnydd digon teilwng o eglwysi diangen ac yn fodd cadw rhyw lun o drefn arnynt.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Bydd y PEB yn dal at ei rôl fugeiliol gan gadw golwg ar oblygiadau'r Strategaeth Esgobaethol er Tyfiant. Gobeithir hefyd y gellir canfod rhyw fath o ddyfodol newydd ar gyfer mwy o eglwysi diangen. Mae'r PEB yn ystyried cyflogi Archwilydd Cwincwennial Esgobaethol er hwyluso a chysoni gwaith, ac arbed arian ar yr un pryd. Fe allai Corff y Cynrychiolwyr, o bosib gyfrannu at gost y datblygiad hwn am dair blynedd.

St Davids Churches & Pastoral Committee (CPC) AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: 1st January 2019 – 31st December 2019
Author: Ven Paul Mackness – Chair of the CPC

COMMITTEE MEMBERSHIP

The Churches and Pastoral Committee consists of three Archdeacons of the diocese, Chairman or Vice-chairman of the DBF, Chairman of the DAC or another member nominated by him, three members elected by the Diocesan Conference from its own members and three members appointed by the Diocesan Bishop. Nominated and elected members hold office for 6 years.

THE OBJECTIVES

The Churches & Pastoral Committee is responsible for keeping under review the pastoral needs for church buildings in the Diocese and advising the Bishop and Diocesan Conference accordingly. It continues to fulfil its pastoral role as well as advising on grants and loans connected with church buildings and administering the quinquennial inspection scheme of churches along with the process for the redundancy of churches.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

The CPC has met 4 times this year as planned and 2019 marks the end of the 6 year cycle for membership meaning a new CPC will take office from 1st January 2020, further requests have been received this year for churches to become "pilgrimage churches". This last year has not seen many requests for church closures, but with difficult times ahead and smaller congregations the number of requests may rise in the future. A system of ensuring that up to date electrical inspection reports for churches has been instigated by the Secretary which is proving to have positive results.

CHALLENGES THIS YEAR

A major challenge for the CPC is to ensure that all potential church closures follow the procedures that are set to help the process to redundancy. Also, achieving some clarity of definition around what it is to be a *festival church* (Church of England) as opposed to a *pilgrimage church* (Church of Wales). A new possibility has been presented of using some churches as accommodation pods, allowing cyclists to stay in a church whilst cycling around the Diocese. This is still in the very early stages but will be a good way of using those churches that are closed and keeping the buildings in good order.

LOOKING FORWARD

The CPC will continue to fulfil its pastoral role and look into all matters of the Diocesan Strategy for Growth. It is also hoped that more closed churches will be able to find a new way to be used and cared for. The CPC is looking at bringing all Quinquennial reports in house and the employment of a Diocesan Quinquennial Inspector – this will make savings and ensure a continuity in reporting for the future. There is a possibility that the Representative Body might be able to part fund this post for three years.

Y Gyfarwyddiaeth Addysg AGENDUM 9

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: 1af Ionawr 2019– 31ain Rhagfyr 2019
Awdur: Yr Hyb Paul Mackness – Cadeirydd y Gyfarwyddiaeth Addysg

AELODAETH
Cadeirydd y Gyfarwyddiaeth Addysg yw Archddiacon Tyddewi, a'r prif swyddogion yw'r Cyfarwyddwr a'r Dirpwy Gyfarwyddwr Addysg, ynghyd â'r Swyddog Ysgolion (sef yr ysgrifennydd). Daw aelodau'r Gyfarwyddiaeth o blith cynrychiolwyr y Pwyllgor Sefydlog, Penaethiaid Ysgolion Eglwys, Ymwelwyr Esgobol, Clerigwyr a Llywodraethwyr Ysgolion.

AMCANION
Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn arolygu gwaith ysgolion eglwys yr Esgobaeth. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, y Swyddog Ysgolion, ynghyd â'u Llywodraethwyr Gwaddoledig a'u Hymwelwyr Esgobol. Y Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig sy'n gyfrifol am gyllido ein Hysgolion Gwirfoddol dan Gymorth, a'r cyfryw rai dan Reolaeth, a'r un pwyllgor yw adain ariannol y Gyfarwyddiaeth Addysg. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cyfarfod, dan enw'r Pwyllgor Ysgolion, dair gwaith y flwyddyn – fesul tymor, mewn gwirionedd – a hynny fel rheol mewn ysgol eglwys.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Ymddeolodd Cyfarwyddwr addysg yr Esgobaeth Parch Ganon Bryan Witt yn ystod 2019, a phenodwyd y Parch John Cecil yn ei le. Llewyrchus fu hanes Ysgol Penrhyn Dewi, yr Ysgol Wirfoddol dan Gymorth 3-16, y gyntaf yn Nhyddewi ac yn gweithredu dros dair campws; da yw nodi fod nifer y ceisiadau mynediad yn drech na'r lleoedd oedd ar gael yno. Bu'n rhaid i ni sefydlu panel annibynnol i wrando Apeliadau Mynediad i Ysgolion. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn y Gadeirlan i ddisgyblion yn gadael yr ysgol, a hynny mewn cydwethrediad agos â Ty'r Pererin, canolfan addysg a phereriondod y Gadeirlan. Bu'r fenter yn llwyddiant, er y bydd yn rhaid addasu'r trefniadau gogyfer â 2020, gan fod yna ysgol uwchradd yn y ddinas bellach. Collodd yr Esgobaeth un ysgol eglwys pan unodd Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth yn Hwlffordd ag Ysgol Gynradd Sirol Mount Airey i ffurfio Ysgol (newydd) Waldo Williams; er hyn fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn nifer plant ysgolion eglwys. Penderfynwyd ar fwy o weithredu ar y cyd, o ran Eiddo Eglwysig, ac i'r perwyl hwn ymunodd Cadeirydd Pwyllgor yr Ysgolion Gwaddoledig, Mr D W J Thomas â'r Pwyllgor Ysgolion, ynghyd â'r Rheolwr Gweinyddiaeth ac Eiddo.

HERIAU ELENI
Heriol fu ceisio cefnogi ysgolion eglwys ar adeg o gyni economaidd a chyllidebau tynn. Mae'r Gyfarwyddiaeth, yn ogystal, yn cefnogi ysgolion drwy Arolygiaethau Adran 50, ac arolygiaethau ôl-Estyn. Gwelwyd sawl pennaeth newydd yn cymryd ati yn ein hysgolion eglwys, a hynny'n her i'r ysgolion ac i'r penaethiaid eu hunain.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Mae'r Gyfarwyddiaeth yn dymuno parhau i gydweithio ag ysgolion eglwys, llywodraethwyr sylfaen ac eraill, er mwyn hybu gwaith ysgolion ffydd yr Esgobaeth. Gwelir yr heriau presennol, mae'n siwr, yn parhau i'r dyfodol, ond hyderwn y bydd ein ysgolion eglwys yn eu wynebu yn ffyddiog a brwd. Mae'r tîm Addysg newydd yn bwriadu darparu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi, i staff Ysgolion, Llywodraethwyr Sylfaen ac eraill, a mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiad undydd yn y Gadeirlan, ac i gefnogi cynllun *Peace Mala*. Bydd heriau a chyfleoedd, yn sicr, o ran darparu Addysg Grefyddol, yn deillio o gynlluniau newydd Donaldson (o stabl Llywodraeth Cymru) ynglŷn â'r maes llafur.

Directorate for Education AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: 1st January 2019– 31st December 2019
Author: The Venerable Paul Mackness – Chair of the Education Directorate

MEMBERSHIP
The Education Directorate is chaired by the Archdeacon of St Davids, the lead officers are the Director and Deputy Director of Education and the Schools Officer (who acts as secretary). The membership of the Directorate is made up from representatives of the Standing Committee, Church School Heads, Bishop's Visitors, Clergy and School Governors.

THE OBJECTIVES
The Directorate for Education oversees the work of church schools in the Diocese. This is primarily done through the Diocesan Director for Education, the Schools Officer, and our Foundation Governors and Bishop' Visitors. The Endowed Schools Committee is responsible for the funding of our Voluntary Aided and Voluntary Controlled Schools and is the financial wing of the Education Directorate. The Education Directorate meets as the Schools Committee three times a year – equivalent to once a term – usually at a church school.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR
2019 saw the retirement of the Revd Canon Bryan Witt as DDE, and the appointment of the Revd John Cecil as his replacement. Ysgol Penrhyn Dewi the first 3-16 Voluntary Aided School at St Davids, based over three campuses has flourished and has received more applications for entry than places. The Directorate has had to set up an independent panel to listen to Schools Admissions Appeals. A successful school leavers day service was held at the Cathedral working in close collaboration with Ty'r Pererin, the Cathedral education and pilgrimage centre, though with the addition of a Secondary School we hope to revise this for 2020. The Diocese lost one church school when Haverfordwest VC merged with Mount Airey CP School to form a new School Waldo Williams, despite this however the number of children in church schools has increased. There has been a more joined up approach in relation to Church Property and the Chair of the Endowed Schools Committee, Mr D W J Thomas has joined the Schools Committee supported by the Admin and Property Manager.

CHALLENGES THIS YEAR
Supporting church schools in a time of economic hardship and reduced budgets has been a challenge. The Directorate also supports schools through the Section 50 Inspections and post -Estyn inspections. There have also been a number of changes in headships across our church schools which bring new challenges for them and the schools they lead.

LOOKING FORWARD
The Directorate looks forward to continuing to work with church schools, foundation governors and others in furthering the provision of faith-based education in the Diocese. The existing challenges will no doubt continue to be so in the year ahead, but we are confident that our church schools will face them with hope and confidence. The new Education team seeks to provide a programme of training events, both for School staff, Foundation Governors and others and plans are in place to hold an all-day event at the Cathedral as well as supporting the *Peace Mala* scheme. The new Donaldson proposals from Welsh Government in relation to the syllabus will also provide challenges and opportunities in relation to Religious Education provision.

Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaeth Tyddewi (PYE) AGENDUM 9
ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Ionawr 2019 – Rhagfyr 2019
Awdur: Mrs Jan Every, Ysgrifennydd PYE/Swyddog Gofal Eglwysi

AELODAETH Y BWRDD
Y PYE yw'r prif gorff sy'n cynghori Canghellor yr Esgobaeth. Mae'r aelodaeth yn gyfuniad o glerigwyr (Archddiaconaid), yn ogystal ag arbenigwyr mewn meysydd megis pensaernïaeth, archaeoleg, hanes, clychau neu organau; y Cofrestrydd Esgobaethol ac Ysgrifennydd. Gwirfoddolwyr yw'r aelodau oll a mae'r Eglwys yng Nghymru yn dibynnu ar haelioni'r cyfryw rai, sy'n rhoi yn hael o'u hamser a'u harbenigedd er budd y PYE.

AMCANION
Trefnir y PYE gan Ysgrifennydd sy'n cydlynu cyfarfodydd a cheisiadau ar y cyd â Chofrestrydd yr Esgobaeth. Rhan allweddol o waith y PYE yw cyfarfod i drafod cynlluniau; eto i gyd mae modd i'r pwyllgor gynnig arweiniad a chyngor i blwyfi yn gyffredinol. Anogir plwyfi i gysylltu â'r PYE ar fyrder, cyn cychwyn prosiect, er mwyn trafod y gwaith a fwriedir.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r PYE 6 gwaith eleni, yn ôl y bwriad, gan ymweld â 3 safle, a galwyd am ymweliad pellach â Blaenporth, ar gais y Canghellor. Yn 2019 bu'r Gyfundrefn Hawleb Arlinell (CHA) ar waith ers blwyddyn, ac yn ôl pob golwg, yn llwyddiant. Rhoes y PYE gyngor ynglŷn â 53 o Hawlebau cyflawn, derbyniwyd 14 Rhestr A, a dyfarnwyd ynglŷn ag 16 Rhestr B gan y Cofrestrydd. Caniataodd y Canghellor 34 Hawleb, a mae 19 o hawlebau cyflawn pellach ar y gweill o fewn i'r gyfundrefn.

HERIAU ELENI
Mae nifer o'r ceisiadau am hawleb gyflawn yn dal i gael eu paratoi, a'r ffurflenni, o ganlyniad , yn anghyflawn. Her o'r mwyaf fu mynd i'r afael â'r hawlebau anghyflawn hyn, gan drafod â'r Plwyfi a diddymu'r gwaith papur oni fydd eu hangen. Anodd fydd cadw golwg ar geisiadau anghyflawn pan fo ceisiadau eraill yn dod i law.
Mae'n hollbwysig fod Plwyfi yn deall natur hawleb, mai gogyfer â'r gwaith penodedig y cytunwyd arno dan amodau'r hawleb, y rhoddir caniatâd. Os am newid rhywbeth, yna bydd angen hawleb newydd a rhaid atal y gwaith hyd nes y digwydd hynny. O gyflawni unrhyw waith heb y caniatâd gofynnol, bydd yn rhaid, o bosib, dadwneud y gwaith anghyfreithlon (ar gais y Canghellor) a thrwsio ac adfer y difrod, a hynny ar draul y Plwyf. Mae angen i Blwyfi gael cyngor gan Ysgrifennydd y PYE ynglŷn â'r galw am (a'r math o), hawleb.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Yr her barhaus fydd canfod sut y gall y PYE helpu a thywys y Plwyfi drwy'r CHA newydd er mwyn iddynt fedru llwyr ddeall yr oblygiadau cyfreithiol. Y gobaith yw trefnu gweithdai yn y plwyfi, naill ai drwy'r AddGLl neu blwyfi unigol. Y prif amcan yw dangos mai cynnig cymorth yw bwriad y PYE.

St Davids Diocesan Advisory Committee (DAC) AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: January 2019 – December 2019
Author: Mrs Jan Every, DAC Secretary/Care of Churches Officer

BOARD MEMBERSHIP

The DAC is the principal body which advises the Diocesan Chancellor. It consists of clergy (Archdeacons as well as specialists in areas such as architecture, archaeology, history, bells or organs. Diocesan Registrar and a Secretary. The membership of the committee is voluntary, and the Church in Wales relies on the generosity of these volunteers in giving their time and expertise to the DAC.

THE OBJECTIVES

The DAC is managed by a Secretary who coordinates meetings and applications with the Registrar of the Diocese. Whilst a key part of the DAC's work is in meeting to discuss proposals, they are also there to offer guidance and advice to parishes generally. Parishes are strongly advised to contact the DAC at an early stage of a project to discuss proposals.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

The DAC have met 6 times this year as planned with 3 site visits and a further site visit to Blaenporth requested by the Chancellor. In 2019 the Online Faculty System has been running for a year and seems to be going well. The DAC advised on 53 Full Faculties, 14 List A, submitted and 16 List B determined by the Registrar. The Chancellor granted 34 Faculties with a further 19 full faculties at various stages within the system.

CHALLENGES THIS YEAR

Many of the full faculty applications are still in preparation which means that the forms are incomplete. The main challenge will be to re-visit these uncompleted faculties and consult with the Parishes to see if they are still required or if they can be deleted off the system, to free up more space on the system. It will be difficult to monitor the uncomplete faculty applications as time goes by with further applications being submitted.

Another major issue is for Parishes to understand that when a faculty is granted it is for the work that had been submitted within the faculty. Any changes will require a new faculty for the amendments and no work can commence until the new faculty has been granted. Any work carried out which has not been granted, the Chancellor can request the illegal work to be undone and any damages occurred to be repaired and restored, which could lead to extra costs to the Parish. Parishes need to seek advice from the DAC Secretary if in any doubt whether a faculty is required and which category.

LOOKING FORWARD

The continuing challenge will be how the DAC will be able to assist, guide parishes through the new OFS resulting in a clear understanding of the legal protocols. It is hoped to achieve this by undertaking workshops within the parishes, whether that would be through the LMAs or individual parishes. The main objective is to show the DAC are there to help and assist.

Adroddiad y Gymdeithas Dai AGENDUM 9
ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Ion – Rhag 2019
Awdur: Mrs N Evans BA FCCA, Ysgrifennydd Mygedol

AELODAETH Y PWYLLGOR
Cyfarfu'r Pwyllgor Rheoli dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Yr aelodau yw Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Joanna Penberthy (Llywydd), Hyb B J H Jones (Cadeirydd), Mrs Nia Evans (Ysgrifennydd/Trysorydd), Archddiaconiaid Caerfyrddin, Tyddewi a Cheredigion, Cadeirydd y BCE a 3 pherson lleyg.

AMCANION
Mae'r Gymdeithas Dai yn darparu cartrefi rhent gogyfer â chlerigiaid sydd wedi ymddeol, neu weddwon a dibynyddion clerigiaid. Mae'r Gymdeithas yn ceisio cadw ei holl eiddo mewn cyflwr da, gan ofalu fod yna wasanaeth-trwsio trwyadl ar gael ar gyfer y tenantiaid.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
- Yn ystod y flwyddyn bu un newid, o ran tenantiaeth; dim un tŷ yn wâg ddiwedd y flwyddyn.
- Yn ystod y flwyddyn ad-dalwyd cyfalaf ychwanegol o £10,000 i Fwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi. Ad-dalwyd gweddill y benthyciad ar 31ain Rhagfyr 2019.
- Cynhaliwyd adolygiad rhent, ac fe'i codwyd, o ganlyniad, 5.44%, a hynny o Ionawr 2019.

Cofnodwyd cyfanswm incwm o £50,977 gogyfer â 2019. Gwariwyd cyfanswm o £30,572 ar Weithgareddau Elusennol. O ganlyniad nodwyd gweddill o £20,405 o ran y Cyfrif Incwm a Gwariant. Dangosodd y Fantolen ar derfyn 2019 asedau cyfredol o £67,476.

HERIAU ELENI
Mae'r trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r lês newydd rhwng Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a Chymdeithas Dai Tyddewi. Ni nodai'r lês wreiddiol mai Cymdeithas Dai Tyddewi oedd yn gyfrifol am y waliau ffin; yn ôl telerau arfaethedig y lês newydd, bydd y Gymdeithas Dai yn dwyn y cyfryw gyfrifoldeb ar y cyd â'r landlord a'r Plwyf.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Y gobaith pendant yw gweld datrys cwestiwn adnewyddu'r lês yn 2020.
Daeth un tŷ yn wâg ac archwiliwyd ei gyflwr cyn ei baratoi ar gyfer tenant newydd. Daeth Covid19, gwaetha'r modd, i darfu ar y broses.
Bwriad y Gymdeithas Dai yw parhau i gynnal yr holl eiddo, gan sicrhau y bydd mewn cyflwr da ac y bydd gwasanaeth-trwsio parod ar gyfer y tenantiaid.

Housing Association Report AGENDUM 9

ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: Jan – Dec 2019
Author: Mrs N Evans BA FCCA, Hon Secretary

COMMITTEE MEMBERSHIP

The Management Committee met on three occasions through the year. It comprises, Bishop of St Davids, The Right Reverend Joanna Penberthy as President, The Ven B J H Jones as Chairperson, Mrs Nia Evans Secretary / Treasurer, the Archdeacons of Carmarthen, St Davids and Cardigan, the Chair of the DBF and 3 lay persons.

THE OBJECTIVES

The Housing Association provides rental homes for retired clerics, or widows/widowers and dependants of clerics. The Association endeavours to keep its housing in good repair and seeks to provide a responsive and efficient repair service for its tenants.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

- During the year there has been one change in tenancy with no vacant property at the year end.
- During the year, an additional £10,000 capital was repaid to St Davids Diocesan Board of Finance. The loan balance has been repaid at 31st December 2019.
- A rent review was conducted, which resulted in a rental increase of 5.44% from January 2019.

Total income for 2019 was £50,977. Expenditure on Charitable Activities amounted to £30,572. The resultant surplus on the Income and Expenditure Account was £20,405. At the year end the Balance Sheet showed net current assets totalling £67,476.

CHALLENGES THIS YEAR

The committee continues to negotiate the new lease between the Representative Body of the Church in Wales and St Davids Housing Association. The original lease did not set out that St Davids Housing Association was responsible for the boundary walls whilst the new lease proposes that the Housing Association will be equally responsible with the landlord and with the Parish.

LOOKING FORWARD

It is envisaged (and hoped) that the lease renewal, will be resolved in 2020.
One property has been vacated and inspected prior to being made available for a new tenant. Unfortunately, Covid19 has disrupted this process.
The Housing Association will endeavour to continue to maintain its housing stock in good repair and continue to offer a responsive repair service for its tenants.

AELODAETH CEGC

Elusen gofrestredig dan lywyddiaeth Esgob Tyddewi, y Gwir Barch Joanna Penberthy, yw Cyngor dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol Esgobaeth Tyddewi(CEGC); Parch Delyth Wilson yw'r Cadeirydd, ynghyd â 13 o aelodau ychwanegol â 5 ohonynt hwy yn ymddiriedolwyr, yn ogystal. Arferir cynnal 6 chyfarfod y flwyddyn er mwyn trefnu a gwyntyllu'r gwaith. Yn gyfuniad o leygwyr a chlerigiaid, mae'r corff ymddiriedolwyr yn frwd ei ddiddordeb dros les a llwyddiant cymdeithasol pobl Esgobaeth Tyddewi.

AMCANION CEGC

Prif amcan y CEGC yw hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol fel elfen hanfodol ffydd fyw, a rhan allweddol o genhadaeth Eglwysig. I'r perwyl hwn, ymhlith ymdrechion eraill, cefnogir gwaith dwy ymddiriedolaeth Esgobaethol pellach - Plant Dewi a Tir Dewi – sy'n gweithio'n ddyfal gyda theuluoedd difreintiedig a chymunedau ffermio yng nghefn gwlad. Drwy gydweithio'n ogystal, â chymdeithasau/threfniannau eraill, yn lleol a chenedlaethol, mae'r CEGC yn awyddus i nodi sefyllfaoedd neu bobl sydd angen cymorth/ymgeledd, ac i ymateb yn gadarnhaol yn ôl y galw.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Gwelwyd ymddiriedolwyr y CEGC a staff hŷn Plant Dewi'n mynd ati i drefnu trwsio ac ail-wampio 21 Stryd y Brenin, prosiect llwyddiannus a gyflawnwyd yn unol â'r amcan bris. Hefyd, cefnogodd yr ymddiriedolwyr reolwr newydd Plant Dewi, sef Ms. Catrin Evans a benodwyd wedi ymddeoliad Mrs. Sue Fletcher. Rydym yn parhau i ail-strwythuro Plant Dewi, gan bwysleieio rheoli agored a thryloyw er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni prosiectau yn fwy effeithiol. Pwysleisir lles a ffyniant y staff yn gyffredinol, ynghyd â phwysigrwydd Diogelu ac Amddiffyn. Cadwyd golwg yn ogystal ar waith cynyddol Tir Dewi. Darperir hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr yr olaf gan Sefydliad DPJ, a chyfarfu Emma Picton Jones, sefydlydd yr elusen, â'r cyngor er mwyn awgrymu sut y gellid cydweithio i helpu amaethwyr sy'n ymgodymu â phroblemau iechyd meddwl. Hysbyswyd y cyngor, yn ogystal, ynglŷn â materion y digartref yng ngorllewin Cymru, gan aelod o Housing Justice. Ym mis Gorffennaf aeth Canon Eileen Davies (Archddiacon Ceredigion bellach) a Chadeirydd y CEGC i gyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Taleithiol yng Nghaerdydd i annerch ynglŷn â gwaith Tir Dewi a Plant Dewi, a chawsant dderbyniad gwresog.

HERIAU ELENI

Daliwn ati i geisio cyflwyno a chymeradwyo gwaith y CGCE a'r amrywiol brosiectau, i'r plwyfi a'r AddGLl newydd. Ein gobaith yw y bydd yna le i Plant Dewi oddi fewn i'r Archddiaconiaeth dros Gymunedau Eglwysig Newydd, wrth i ni gydweithio â'r Tasglu Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, er mwyn cyflwyno cariad Crist i aelodau iau ein cymunedau. Rhaid asesu hefyd a yw Cyfansoddiad y CEGC yn addas, o ran amodau cyfredol.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Ein gobaith yw ail-lansio siop Plant Dewi yn yr Hydref. Lleolir swyddfa newydd bellach uwchben y siop yn Stryd y Brenin, a bydd hyn yn arbed costau i ni. O ganlyniad i'r Dydd o Hwyl yn y Gadeirlan ar gyfer teuluoedd sy'n rhan o brosiectau Plant Dewi, y gobaith yw cynnwys Sul Plant Dewi yn y calendr Eglwysig, gan sicrhau naws litwrgaidd briodol flynyddol i'r achlysur.

St Davids Diocesesan Council for Social Responsibility

ANNUAL SUMMARY REPORT AGENDUM 9

Reporting period: Easter 2019 – Easter 2020

Author: Revd Delyth Wilson, Chairperson

DCSR MEMBERSHIP

St Davids Diocesan Council for Social Responsibility (DCSR) is a registered charity with The Bishop of St Davids, The Right Revd Joanna Penberthy as its President; Revd Delyth Wilson its Chairperson and 13 further members, 5 who are also trustees. The Council meets 6 times a year to manage and guide its affairs. The council is a mix of laity and clerics, all with an interest in the social wellbeing of the people of St Davids Diocese.

DCSR OBJECTIVES

The main objective of the DCSR is to promote social responsibility as a fundamental element of a living faith and as an integral part of Church mission. Its strategies for achieving this include supporting the work of two further Diocesan charities – Plant Dewi and TirDewi who work closely with disadvantaged families and rural farming communities respectively. By also working pro-actively with wider organisations on a local and national level, the DCSR strives to identify areas of concern or need and respond in a non-judgmental way.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

The DCSR trustees and the senior staff of Plant Dewi oversaw the successful repair and refurbishment of 21 King Street, keeping within the approved budget. The trustees also provided support to the new Plant Dewi manager Ms. Catrin Evans who took over the role on the retirement of Mrs. Sue Fletcher. The management re structuring of Plant Dewi continues with emphasis on openness and transparency as it progresses to improve efficient delivery of projects. The well being of both core and centre staff has been high on the agenda as has been the need to highlight the importance of Safeguarding. The council also continued to keep abreast of the expanding work of TirDewi. The DPJ Foundation provides training to the Tir Dewi volunteers and Emma Picton Jones the founder of the charity met with the council to present ways all can work together to help farmers who are struggling with mental health issues. The council were also informed about the issues around housing and homelessness in west Wales by a representative of Housing Justice. In July Canon Eileen Davies (now Archdeacon of Ceredigion) and the Chair of the DCSR, both attended a meeting of the Provincial Standing Committee in Cardiff to make individual presentations on the work of Tir Dewi and Plant Dewi. These were very well received.

CHALLENGES THIS YEAR

Engaging parishes and newly formed LMA`s with the work of the DCSR and its projects continues to be an on- going challenge. It is hoped that a place for Plant Dewi within the Archdeaconry for New Church Communities will be found as we working together alongside the Children Youth and Families taskforce to best reach the younger members of our communities with the love of Christ. To assess whether the Constitution and of the DCSR meets current needs.

LOOKING FORWARD

The re launch of The Plant Dewi shop will hopefully happen in the Autumn. The relocation of the office to above the shop King Street will make necessary financial savings and is a key objective; Following the successful Cathedral Fun Day for the families engaging with Plant Dewi projects it is hoped that a Plant Dewi Sunday will be introduced into the Church calendar, thereby giving it an annual liturgical focus.

Plant Dewi AGENDUM 9

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: 01.01.2019 – 31.12.2019
Awdur: Catrin Evans, Rheolwr Plant Dewi

AELODAETH Y BWRDD

Elusen gofrestredig yw Cyngor Esgobaeth Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol, a Plant Dewi'n brif brosiect cynhaliaeth deuluol iddi. Ei llywydd yw Esgob Tyddewi, y Gwir Barch Ddr Joanna Penberthy; ei chadeirydd yw'r Parch Delyth Wilson, ynghyd â 13 o Aelodau Cyngor (y Cadeirydd a 5 aelod yn Ymddiriedolwyr). Mae'r Cyngor yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn, yn lleygwyr a chlerigwyr, gan arddangos diddordrb yn lles a ffyniant cymdeithasol pobl yr Esgobaeth.

AMCANION

Meithrin teuluoedd a chryfhau cymunedau, sicrhau modd i deuluoedd drawsnewid eu bywydau, gan ennyn gobaith ac ymdeimlad o berthyn, ledled Esgobaeth Tyddewi.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Cyflawnwyd 26 o brosiectau gan 47 aelod staff, yn cynnwys 9 Canolfan Deuluol, 4 Grŵp Teuluoedd Ynghyd, 5 grŵp Rhieni Ifainc, 3 phrosiect Gwaith Tadau, 2 Feithrinfa a 3 hwb Bwndel Babi. Cefnogwyd 2299 teulu ledled Esgobaeth Tyddewi.

Bu'n flwyddyn o newidiadau yn hanes Plant Dewi, wrth i'r Rheolwr Prosiectau a'r Rheolwr Cyllid ymddeol, ynghyd â phenodiad Catrin Evans yn Rheolwr Cyffredinol ym mis Hydref. Penodwyd Christina Jenkins yn Rheolwr Cefnogaeth Deuluol ym mis Tachwedd, gyda chyfrifoldeb dros staff a phrosiectau Plant Dewi.

Caeodd y Siop Elusen ei drysau yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn ail-wampio'r adeilad.

Ffurfiodd y prosiect Bwndel Babi, a ddarparodd 200 pecyn o hanfodion ar gyfer darpar rieni a rhieni newydd yn ystod y cyfnod, - bartneriaeth gadarn ag Undeb Mamau Esgobaeth Tyddewi. Sefydlwyd hybiau Bwndel Babi ymhob Archddiaconiaeth – Hwb Plant Dewi, Doc Penfro, Y Ffynnon, Aberystwyth ac Eglwys Sant Ioan, Caerfyrddin.

Trefnodd y tîm Ddydd Hwyliog i'r Teulu yng Nghadeirlan Tyddewi ar 21ain Medi 2019, gan groesawu 200+ o bobl o'r canolfannau a'r grwpiau teuluol.

Daliwyd ati â Gwaith y Tadau yn ystod y flwyddyn, yn Noc Penfro yn bennaf, gyda 99 tad yn cysylltu â'r prosiect, a neilltuwyd 450 o oriau gan wirfoddolwyr drwy brosiect y Beiciau. Roedd hyn yn gyfle i dadau rannu a dysgu sgiliau newydd tra'n uwch-gylchu beiciau ar eu cyfer eu hunain a'u plant. Daeth 100 a mwy ynghyd i fwynhau digwyddiadau 'Dewch â'ch Tad i Frecwast', yn ysgolion Penfro a Doc Penfro, yn gyfle i dadau ymweld â'r ysgolion gyda'u plant a chyfarfod â thadau eraill ar yr un pryd.

HERIAU ELENI

Mae llanw swyddi gwag yn parhau i fod yn her, gan fod yna elfen o ansicrwydd ynglŷn â'u dyfodol, a methu cynnig swyddi llawn amser. Rydym yn ffodus, fodd bynnag, fod cyfran helaeth o'n staff yn sefydlog, a phan fônt yn symud ymlaen, yna dringo'r ysgol a wnant, a hynny, yn aml iawn yn fewnol.

Nid rhwydd dygymod â'r newidiadau mewnol a chynnal gwasanaeth safonol ar yr un pryd, ond bu ymateb y tîm yn rhagorol a'r adborth yn gadarnhaol.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Bwriedir:

- Datblygu cynllun byr, canolig a hir-dymor ar gyfer y prosiect, law yn llaw â'r staff a'r ymddiriedolwyr
- Creu perthynas â chyrff ariannol allweddol, er dyfodol y prosiect, o ran bod yn gynaliadwy
- Agor Siop Elusen Plant Dewi
- Gwella presenoldeb arlinell Plant Dewi.

Plant Dewi AGENDUM 9

ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: 01.01.2019 – 31.12.2019
Author: Catrin Evans Manager Plant Dewi

BOARD MEMBERSHIP

St Davids Diocesan Council for Social Responsibility is a registered charity and Plant Dewi is its main family support project. Bishop of St Davids, The Right Revd Joanna Penberthy, is its President; Revd Delyth Wilson its Chairperson along with a further 13 Council Members, of which the Chair and 5 members are Trustees, who all meet 6 times a year. The members, a mix of laity and clerics, have an interest in the social wellbeing of the people of the Diocese.

THE OBJECTIVES

To nurture families and strengthen communities, to empower families to bring about positive changes in their lives, giving hope and a sense of belonging, across the Diocese of St Davids.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

This year 26 projects have been delivered by 47 members of staff which include 9 Family Centres, 4 Families Together groups, 5 Young Parents groups, 3 Dads Work projects, 2 Nursery settings and 3 Baby Bundle hubs. 2299 families have been supported across the Diocese of St Davids

Plant Dewi has seen a year of change and following the retirement of both Project Manager and Finance Manager, Catrin Evans became overall Manager in October. Christina Jenkins, Family Support Manager joined the team in November to manage the Plant Dewi staff and projects.

During this period, the Charity Shop closed its doors for a refurbishment of the building.

The Baby Bundle project, which has provided 200 packs of essentials to expectant and new parents over the year, formed a positive partnership with The St Davids Diocese Mothers' Union. Baby Bundle Hubs have also been established in each Archdeaconry – Hwb Plant Dewi, Pembroke Dock, The Well, Aberystwyth and St Johns Church, Carmarthen.

The team organised a Family Fun Day at St Davids Cathedral on the 21st September 2019, bringing together over 200 people from the family centres and groups.

Dads Work has continued to develop over the year, specifically in Pembroke Dock whereby 99 fathers have accessed the project and 450 volunteer hours were completed through the Bicycle project. This project gave fathers the opportunity to share and learn new skills whilst upcycling bikes for themselves and their children. Over 100 participants enjoyed the 'Bring your Dad to Breakfast' events held in Pembroke and Pembroke Dock schools giving Dads the opportunity to visit the schools with their children and enjoy getting to know others at the same time.

CHALLENGES THIS YEAR

Recruitment of vacant posts continues to be a challenge due to uncertainty around sustainability and being unable to offer full time positions. We, however, are fortunate that we retain a large percentage of our staff, and when staff do leave, it is due to progression, often internally.

Managing the internal changes whilst maintaining a high quality service provision has been difficult, however, the team have responded well and feedback has been positive.

LOOKING FORWARD

- To develop a short, medium and long term plan for the project, in consultation with staff and Trustees
- To build relationships with key funders to guide the way forward for the project in terms of sustainability
- To open the Plant Dewi Charity Shop
- To improve the online presence of Plant Dewi.

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Ionawr i Rhagfyr 2019

Awdur: Hybarch Eileen Davies, Ymgynghorydd Bywyd Cefngwlad

AELODAETH Y BWRDD

Mae gennym 10 o ymddiriedolwyr, ynghyd â'n Noddwraig, Ms. Sara Edwards, Arglwydd Raglaw Dyfed, a'n Llywydd y Gwir Barchedig Ddr Joanna Penberthy. Mr Malcolm Lewis yw'r Cadeirydd, a'r naw arall yn bobl o amrywiol gefndiroedd gwledig a chanddynt wybodaeth a sgiliau perthnasol. Trefnir cyfarfodydd chwe gwaith y flwyddyn. Erbyn hyn mae Mr Gareth Davies yn Swyddog Gweithredol llawn amser, a'i waith yntau yw datblygu a hybu'r gymdeithas, tra bod Ms Anne May yn Gydlynydd Gwirfoddolwyr – hithau yn rhan-amser.

AMCANION

Sefydlwyd Tir Dewi yn 2015 er budd cymuned amaethyddol Gorllewin Cymru a phobl â chysylltiad o unrhyw fath â'r diwydiant amaeth. Mae'r Swyddog Gweithredol a'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr yn sicrhau fod 32 gwirfoddolwr Tir Dewi yn cael eu hyfforddi a'u hannog i ateb anghenion amaethwyr Gorllewin Cymru.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu Tir Dewi yn gysylltiedig â 200 o amrywiol achosion. Uwchlaw popeth, bod yno fu her bennaf y gweithwyr – i glywed (a gwrando) ar gŵyn amaethwyr a'u gofidiau ariannol yn sgîl ansicrwydd bythygiad Brexit, a'i effaith ar farchnadoedd da byw; hefyd y toreth rheolau a rheoliadau sy'n rhan anatod o fyd amaeth heddiw (a'r gosb ariannol, o fethu cydymffurfio). Mae ofn darfodedigaeth mewn gwartheg yn gwasgu, yn ogystal – ac ar ben hyn, unigrwydd a natur ynysig y swydd, - ffactor sy'n medru bod yn bla yng nghefn gwlad.

Pa ryfedd, yn wyneb hyn i gyd, fod iechyd meddwl yn gwestiwn amlwg ym mhrofiad nifer o amaethwyr yr oes hon – a da bod ein gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i adnabod yr arwyddion a gweithredu yn ôl y galw. Yn groes i'r hyn a fu efallai, gwelir mwy o barodrwydd bellach, i ymdrin yn agored â iechyd meddwl, a dyna oedd testun noson gofiadwy tua diwedd 2019, wedi ei threfnu gan Ffederasiwn Ffermwyr Ifainc Siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro, er codi ymwybyddiaeth iechyd meddwl mewn pobl ifainc. Cafwyd cyfraniadau ganTir Dewi, DPJ ac Alun Elidyr o'r rhaglen 'Ffermio', a chlywodd y gynulleidfa helaeth o bobl ifainc am bwysigrwydd siarad, rhannu baich gofidiau a sylweddoli ei bod yn 'iawn i beidio bod yn iawn'; noson arbennig, ei heffaith yn bellgyrhaeddol, a'i neges yn sicr wedi taro deuddeg yng nghalonnau'r gwrandawyr.

Derbyniodd Tir Dewi gymorth sylweddol o Gronfa Cefngwlad Tywysog Cymru, y Loteri Fawr, a Llywodraeth Cymru, er mwyn sefydlu ac ariannu yn ystod y pum mlynedd nesaf, ganghennau Tir Dewi yng Ngwynedd a Phowys; hefyd bwriedir cyflogi person ifanc i weithio'n rhan-amser gyda'r Ffermwyr Ifainc. Cyflogwyd Miss Elen Skyrme yn weithiwr preswyl am flwyddyn gyda phrosiect Llech, Glo a Chefngwlad drwy nawdd Sefydliad Arthur Rank, er mwyn asesu gwaith Tir Dewi ers ei sefydlu, ac anghenion y diwydiant amaeth ym Mhowys.

HERIAU ELENI

Mae'n bosib fod natur ynysig bywyd cefn gwlad ac unigrwydd yn y byd amaethyddol yn dal yn bynciau nad oes wiw sôn gormod amdanynt, ac efallai fod mwy o alw nag erioed am rywun i wrando. Diau fod galw cynyddol hefyd i gefnogi clerigiaid sy'n gweithio a gweinidogaethu yn unigrwydd perfeddwlad ein Hesgobaeth. Mae'r Eglwys yng Nghymru am ymroi, bellach, i sicrhau fod Ymgynghorwyr Cefn Gwlad ymhob un o Esgobaethau Cymru, ac y mae hyn i'w groesawu.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Bwriedir, yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, sefydlu Pwyllgor Rheoli i arolygu gwaith Tir Dewi yng Ngwynedd, hefyd cyflogi gweithiwr rhan-amser yn Gydlynydd Gwirfoddolwyr. Byddwn yn cydweithio'n agos ag Ymgynghorydd Bywyd Cefngwlad Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu, wrth lansio Tir Dewi ym Mhowys, a bydd person ifanc yn derbyn swydd rhan-amser i gydweithio â Mudiad y Ffermwyr Ifainc; hefyd mae trefniadau ar droed i sefydlu cynllun cyfeillio er budd pobl hŷn a methedig.

Tir Dewi AGENDUM 9

ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: January to December 2019
Author: Venerable Eileen Davies, Rural Life Advisor

BOARD MEMBERSHIP

Membership comprise 10 trustees, with Ms. Sara Edwards, Lord Lieutenant of Dyfed as Patron, The Right Reverend Dr Joanna Penberthy as President, Mr Malcolm Lewis as Chairperson, and nine people from different rural backgrounds, each with their own field of knowledge and expertise. It meets six times a year. Mr Gareth Davies holds the full time post of Executive Officer, to develop and promote the organisation and Ms Anne May the part time post of Volunteer Co-ordinator.

THE OBJECTIVES

Tir Dewi was set up in 2015 to meet the needs of the West Wales farming community and those connected to the agricultural industry in any way. The Executive Officer and Volunteer Co-ordinator ensure that the 32 Tir Dewi volunteers are trained and encouraged to answer the needs of West Wales' farmers.

ACHIEVEMENTS THIS YEAR

Over the duration of the last year, Tir Dewi has been involved with 200 individual cases. The main work has been to offer a listening ear to farmers struggling with a variety of difficulties: from financial implications, caused by the continuing uncertainties in the market due to Brexit; burdened by keeping up with the many government rules and regulations, which can result in financial penalties if not adhered to, TB issues, with rural isolation and loneliness remaining the greatest impact upon our rural areas.

Due to these worries, many suffer from mental health illnesses, which Tir Dewi volunteers are trained to recognise and duly refer to other organisations. Mental well being is a subject thankfully which is now being talked about openly, and the end of 2019 saw an amazing evening jointly organised by the Young Farmers Federation in Ceredigion, Carmarthenshire, and Pembrokeshire, to specifically raise awareness of mental health in young people. Tir Dewi, DPJ and Alun Elidyr from Ffermio spoke to a venue full of young people, of the need to talk, share the load, and state that it is ok to feel not ok. The impact of this evening is far reaching, and those present were enthused and encouraged to make a difference in young people's mental well being.

Tir Dewi has received major financial aid from the Prince's Countryside Fund, the Big Lottery, and the Welsh Government to finance over the course of the next five years a branch of Tir Dewi in Gwynedd, a branch of Tir Dewi in Powys, and a Young Person over the next three years in a part time role to work with the Young Farmers. Miss Elen Skyrme has been employed for a year as an Intern under the project of Slate, Coal, and Rural, financed by the Arthur Rank Foundation, her role to assess the work of Tir Dewi from its inception to date, and the needs of the agricultural industry in Powys.

CHALLENGES THIS YEAR

The subject of rural isolation and loneliness within the agricultural industry, as well as mental health, is still a taboo subject and the need to offer a listening ear is greater than ever. There is growing awareness too of the need to support clergy who work and minister in equally lonely environments in the deep rural parts of our Diocese, and the Church in Wales is committed to ensure a dedicated Rural Life Advisor in each Diocese in Wales, which is welcomed.

LOOKING FORWARD

Our aims and challenges for the year ahead include the setting up of a Management Committee to oversee the work of Tir Dewi in Gwynedd, and employ a part time person as Volunteer Co-ordinator. Work closely with the Rural Life Advisor of Swansea and Brecon to launch Tir Dewi in Powys, and to employ a young person on a part time basis to work with the Young Farmers Movement; and to set up a befriending scheme to engage with the elderly and infirm.

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod Dan Sylw: 1af Ionawr – 31ain Rhagfyr 2019
Awdur: Mrs Brenda Evans, Ysgrifennydd

AELODAETH

Comisiynwyd Mrs Heather Witt yn Llywydd Undeb Mamau Tyddewi, ynghyd ag Ymddiriedolwyr newydd - a hynny mewn gwasanaeth arbennig yn y Gadeirlan – gan y Gwir Barchedig Joanna Penberthy. Gwelwyd ymddeoliad Caplan Esgobaethol Undeb y Mamau, Parch Ganon Bryan Witt wedi 18 mlynedd o wasanaeth clodwiw, a phenodwyd y Parch Glenys Payne i lanw'r swydd. Cytunodd Mrs Lorna Cecil i fod yn olygydd Teulu Non.
Roedd 922 o aelodau ar ein llyfrau yn 2019.

YR HYN A GYFLAWNWYD

Etholwyd Mrs Sheran Harper, Guyana, India'r Gorllewin, yn Llywydd Byd-eang – y gyntaf o'r tu allan i'r DG; da yw nodi i Lywydd a Thrysorydd UM Tyddewi fod yn bresennol yn ei Gwasanaethau Comisiynu yng Nghadeirlan Southwark ym mis Chwefror 2019, a nodwyd uchafbwynt ein blwyddyn pan ymwelodd hi â Thyddewi ym mis Medi. Derbyniodd groeso a chyfle i ryfeddu at ogoniant y Gadeirlan, a Thŷ Encil St. Non's yn ogystal, lle y cyfarfu â'r Chwiorydd Trugaredd gan hel atgofion am ddyddiau ysgol (cawsai ei haddysg ganddynt hwythau yn Guyana). Dilynwyd hyn gan wasanaeth aelodau yn Eglwys Crist, Caerfyrddin, lle y traddodwyd anerchiad gan Sheran cyn iddi gyfarfod pawb, gan ein hysbrydoli fel cynulleidfa, ar gyfrif ei brwdfrydedd dros UM; yn ogystal derbyniodd Sheran y Parch. Caroline Mansell yn aelod Esgobaethol.

Mae UM yn dal i ymwneud â sawl prosiect sydd o fudd i'r gymuned; gwelir y Llywydd Esgobaethol Heather Witt a Trixie Nuthall yn gweithio law yn llaw â Plant Dewi, gan hybu gwaith 'Moli & chrefft' yn eu canolfannau yn siroedd Penfro a Chaerfyrddin. Mae'r ymgyrch "Gwyliau Dibryder" yn parhau, ond yn wahanol ei diwyg. Trefnir gwyliau lle bo galw am hynny, eithr ar lefel Esgobaethol mae UM bellach yn cydweithio â Plant Dewi, gan ddarparu bysiau ar gyfer teithio i ddigwyddiadau, a gwelir mwy o deuluoedd yn elwa o hyn.

Cynhaliwyd y gweithgareddau arferol yn 2019: Encilion Preswyl yn St. Non's; Dyddiau Tawel bythol-boblogaidd; Gwasanaeth Goleuni: mynychwyd y Cyfarfod Cyffredinol yn Portsmouth; Y Cyngor Byd-eang; y Don Weddi Flynyddol; a chefnogwyd yr "Ymgyrch 16 Diwrnod o Weithredaeth yn Erbyn Trais Rhywiau".

Bu cynnal tri chyfarfod cyngor archddiaconiaethol yn llwyddiant, gan ddangos, ymhlith pethau eraill, ymrwymiad UM i gydweithio law yn llaw â Plant Dewi. Bwriedir parhau ar y trywydd hwn yn y dyfodol, gan fod mwy o'n haelodau'n elwa o hynny.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Mae gan 2020 gyfleoedd newydd ar ein cyfer, gan i ni gytuno bod yn rhan o fenter Debyd Uniongyrchol MSH gogyfer â chasglu tanysgrifiadau. Hefyd bydd y bas-data newydd ar waith, ond bydd rhaid wrth wybodaeth gyfamserol gan y canghennau, os am lwyddo yn hynny o beth. Mae yna ddau brosiect newydd yn yr arfaeth yn 2020. Awgrymodd Iris Taylor ein bod yn cefnogi Dyddiau i Ferched – ymgyrch er darparu anghenion mislif ar gyfer gwragedd a merched difreintiedig. Prosiect gwau yw awgrym Mari Thomas – Angylion Nadolig – gan gyflwyno stori'r Geni i'n trefi a'n pentrefi.

St Davids Diocese Mothers' Union AGENDUM 9
ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: 1st January – 31st December 2019
Author: Mrs Brenda Evans, Secretary

MEMBERSHIP

Mrs Heather Witt was commissioned as St Davids Mothers' Union President in a special service at the Cathedral by the Right Reverend Joanna Penberthy, along with new Trustees. MU Diocesan Chaplain, Revd Canon Bryan Witt retired after 18 years of dedicated service and Revd Glenys Payne was appointed to the office. Mrs Lorna Cecil took up the role of Teulu Non editor.

Our membership in 2019 amounted to 922.

ACHIEVEMENTS

Mrs Sheran Harper from Guyana, West Indies is the first World Wide President elected from outside the UK, St Davids MU President and Treasurer were pleased to attend her Commissioning Services in Southwark Cathedral in February 2019 and the highlight of our year was her visit to St. Davids in September when we welcomed her with a tour of the Cathedral and a visit to St. Non's retreat house where she met the Sisters of Mercy and reminisced about her schooldays (she had been educated by them in Guyana). This was followed by a members' service at Christchurch, Carmarthen where Sheran addressed and met members, inspiring us all with her enthusiasm for MU; Revd. Caroline Mansell was also admitted as a Diocesan member by Sheran.

MU continues to be involved in a number of projects which reach out to the community; DP Heather Witt and Trixie Nuthall work with Plant Dewi helping with 'Praise & craft' work at their hubs in Pembrokeshire and Carmarthenshire. "Away From It All Holidays" continues but is now managed differently. Holidays are arranged where requested but at a Diocesan level MU now works in partnership with Plant Dewi, providing bus travel for events which they organise and which reach more families overall.

The usual events took place in 2019: Residential Retreats at St. Non's; Quiet Days which always prove popular; Service of Light; we attended the General Meeting in Portsmouth; The Worldwide Council; the Annual Wave of Prayer; support of the "16 Days of Activism Against Gender Violence Campaign".

Holding three archdeaconry council meetings proved successful, highlighting MU commitment to work in partnership with Plant Dewi among other things. This will be continued in the future as it reaches more of our membership.

LOOKING FORWARD

2020 has new opportunities for us as we have agreed to take part in a MSH Direct Debit initiative for collecting subscriptions. Also, the new database will be up and running, but this can only be successful where branches send in up-to-date information. We have plans for two new projects in 2020. Iris Taylor has plans for a new project for us – supporting Days-for Girls – providing sanitary products for under-privileged women and girls. Mari Thomas has plans for a knitting project – Christmas Angels – taking the Christmas story into our towns and villages.

Cyfeillion Cadeirlan Tyddewi AGENDUM 9

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod dan sylw: Pasg 2019 – Pasg 2020
Awdur: Y Tra Pharch Ddr Sarah Rowland Jones

Elusen gofrestredig annibynnol yw Cyfeillion Cadeirlan Tyddewi, yn gweithredu dan faner y Deon a'r Cabidwl, a chan gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth Mam Eglwys yr Esgobaeth.

AELODAETH

Mae gan y Cyfeillion tua 1300 o aelodau unigol a 30 aelod corfforaethol. Swm a sylwedd Pwyllgor Gweithredol y Cyfeillion yw: y Deon, chwech aelod wedi eu henwebu gan y Deon a'r Cabidwl a chwech wedi eu hethol i gynrychioli'r aelodau. Ymddiswyddodd yr Ysgrifennydd Mygedol, Mrs Sally Martyn yn ystod y flwyddyn ac ni phenodwyd Ysgrifennydd yn ei lle hyd yn hyn. Ms Catherine Marks yw'r Trysorydd Mygedol.

AMCANION

Amcanion y Cyfeillion yw:
Trefnu codi arian cyfalaf yn ôl y galw, ar gyfer unrhyw fater brys na ellir defnyddio arian ar ei gyfer o gronfeydd y Deon a'r Cabidwl.
Cynorthwyo'r Deon a'r Cabidwl yn y gwaith o gynnal a chadw'r Gadeirlan er llwyrach Ogoniant i Dduw, ac er anrhydedd i'r Seintiau Andreas a Dewi.
Cyfrannu at y cronfeydd sydd eu hangen ar gyfer cynnal yr addoliad, a chynnal-a-chadw a harddu adeiladwaith y Gadeirlan a'i hamgylchoedd.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Mae'r Cyfeillion yn cefnogi'r Gadeirlan drwy roddion rheolaidd, a thrwy gefnogi prosiectau penodedig. Felly, darparodd y Cyfeillion un aelod staff lleyg a rhan o gostau'r Ysgolheigion Corawl, gan gyfrannu yn ogystal at y gronfa flodau, yr Ŵyl, a phrosiect Datblygu'r Llyfrgell. Mae cymhorthdal blaenorol yn parhau i gefnogi gwaith llawn amser y Swyddog Addysg yn Nhŷ'r Pererin (sy'n eiddo i'r Cyfeillion), wrth iddi ddal ati i ddatblygu gwaith gyda phlant ac oedolion, ac ychwanegu at y wedd bererindodol. Bu i'r Cyfeillion hefyd ariannu sawl prosiect cynnal-a-chadw o fewn i'r Gadeirlan. Mae Mrs Martyn yn dal i gynhyrchu llythyr newyddion, ddwywaith y flwyddyn bellach, yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol – er mawr werthfawrogiad gan y Cyfeillion, gan fod hyn yn ddolen gyswllt sydd, i'w tŷb hwy, yn hybu eu cysylltiad â bywyd y Gadeirlan. Cynhaliwyd Gŵyl Flynyddol y Cyfeillion ar benwythnos 14-15 Medi 2019, dan gadeiryddiaeth Dr George Middleton, yn absenoldeb anochel yr Esgob. Traddodwyd yr anerchiad gan y Parch Ddr Dee Dyas, Cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Cristionogaeth a Diwylliant a Chanolfan Astudiaethau pererindod Prifysgol Erfog; testun ei hanerchiad oedd 'Pererindod, y Gorffennol a'r Presennol'.

HERIAU ELENI

Mae gwaith cydgyfuno'r Portffolio Eiddo yn symud yn ei flaen, o ganlyniad i benodi Swyddog/ Syrfëwr Eiddo dros yr Esgobaeth, a ninnau â rhan yn ei waith yntau.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Digwyddodd gofid y coronavirus tua diwedd y cyfnod dan sylw. Effiethiodd yn ddybryd ar gyllid y Cyfeillion o ran y buddsoddiadau'n bennaf, ond ar hyn o bryd nid oes angen codi'r arian arnom. Er y Pasg, cytunodd adain weithredu'r Cyfeillion i barhau i gefnogi'r Deon a'r Cabidwl yn ôl yr arfer, ond i ohirio ar y cyfan, rhai prosiectau disgwyliedig eraill, gan neilltuo'r arian hynny er cefnogaeth gyffredinol y Deon a'r Cabidwl, yn wyneb colli incwm sylweddol ymwelwyr.
Deil y Cyfeillion i gefnogi prosiect 'dehongli' y Gadeirlan, gan ddefnyddio'r adeilad hanesyddol er cyflwyno ffydd fyw a chyfoes mewn modd cwbl ddwyieithog a chan gynnwys hanes a chyd-destun nodweddidol Gymraeg a Chymreig. Roedd rhan gyntaf y gwaith bron ar ben pan ddaeth y cyfnod clo, a methwyd dwyn y maen i'r wal nes bod mesurau coronavirus yn caniatáu. Bydd o gymorth amhrisiadwy i'r gwaith 'Croesawu ymwelwyr megis pererinion'. Rhagwelwn y bydd angen peth gwaith ychwanegol, maes o law, wrth baratoi gogyfer â dathlu'r 900mlwyddiant in 2023.
Penderfynodd y Cyfeillion gefnogi unrhyw waith fydd yn angenrheidiol o ganlyniad i'r Archwiliad Cwincwenial nesaf fydd yn digwydd, yn fwy na thebyg yn ystod ail hanner 2020.

The Friends of St Davids Cathedral AGENDUM 9

ANNUAL SUMMARY REPORT

Reporting period: Easter 2019 – Easter 2020
Author: The Very Revd Dr Sarah Rowland Jones

The Friends of St Davids Cathedral is an independent registered charity operating under the umbrella of the Dean and Chapter, and supporting the mission and ministry of the Diocese's Mother Church.

MEMBERSHIP

The Friends have around 1300 individual members and 30 corporate members. The Friends' Executive Committee comprises the Dean, six nominees of Dean and Chapter and six elected members' representatives. The Honorary Secretary, Mrs Sally Martyn stood down during the year and a replacement has yet to be appointed. Ms Catherine Marks is the Honorary Treasurer.

OBJECTIVES

The objectives of the Friends are:
To organise the raising of capital funds as required for any emergency that may arise which cannot be provided for out of funds available to the Dean and Chapter.
To assist the Dean and Chapter in maintaining the Cathedral Church to the greater Glory of God and in honour of Saints Andrew and David.
To subscribe to the funds required for the maintaining of worship and the maintenance and beautifying of the fabric of the Cathedral and its environs.

ACHIEVEMENTS OF THIS YEAR

The Friends support the Cathedral by regular donations, and by supporting particular projects. Thus, the Friends provided the salary of one lay staff member and part of the Choral Scholars' costs, and contributed to the Flower Fund, Festival, and Library Development project. A previous grant continues to support the full time working of the Education Officer based at Tŷ'r Pererin (owned by the Friends), who continues to develop both children and adult work and expand pilgrimage focus. The Friends also funded various maintenance projects within the Cathedral. Mrs Martyn is continuing to produce a newsletter, now twice yearly, in addition to the Annual Report – this is widely appreciated by Friends who say this lets them feel more engaged with Cathedral life. The Annual Friends' Festival Weekend was held on 14-15 September 2019, with Dr George Middleton in the Chair, in the Bishop's unavoidable absence. The Address was given by the Revd Dr Dee Dyas, Director of the Centre for the Study of Christianity and Culture and the Centre for Pilgrimage Studies at the University of York, on 'Pilgrimage, Past and Present'.

CHALLENGES THIS YEAR

Consolidation of the Property portfolio is moving forward, following the appointment by the Diocese of a Property Officer/Surveyor, in whose work we shall have a share.

LOOKING FORWARD

The coronavirus came near the end of this reporting year. Its direct effect on the Friends finances lies with its impact on investments, but at present there is no requirement to draw on these. Since Easter, the Friends Executive have agreed that alongside the regular support to Dean and Chapter, other anticipated projects will largely be postponed and all such budgeted allocations will instead be provided to Dean and Chapter for general budgetary support, in view of the considerable loss in income from visitors.
The Friends continue to support the Cathedral's 'interpretation' project, using the historic building to communicate contemporary living faith in a fully bilingual way, including distinctively Welsh history and perspectives. The first phase was now close to completion when lockdown was instituted, and installation was thus delayed until coronavirus measures allow. It will enhance greatly our capacity to 'Welcome visitors as pilgrims'. We anticipate some additional work as a second phase, as part of our preparations for the 900th anniversary in 2023.
The Friends will support work arising from the next Quinquennial Inspection, which we anticipate receiving during the second half of 2020.

Nodyn Esboniadol

Crêd yr Esgob fod llais y lleygwyr yng Nghynghorau a strwythurau'r Eglwys yn allweddol bwysig. Mae Pwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol wedi cytuno fod hyn yn bwysig, a dymuna weithredu'n groyw er caniatáu i'r lleygwyr gymryd rhan amlwg ym mywyd yr Eglwys, ei llywodraethiant, ei pholisïau a'i thrafodaethau. Y gobaith yw ail-rymuso bywyd yr Esgobaeth a'i Chynhadledd, drwy greu cyfleoedd amgenach i leygwyr fedru cyfrannu,

Ychwanegwyd at nifer y bobl leyg ar Bwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol, a galluogwyd AddGLl i benodi Cadeiryddion Lleyg ar gyfer eu Cynghorau AddGLl, hyn oll yn darlunio'r modd y mae'r Esgobaeth, bellach, yn rhoi mwy o lais i leygwyr, o ran gwneud penderfyniadau ac arwain.

Y Gynhadledd Esgobaethol (a'i Phwyllgor Sefydlog) yw'r man lle dylid esgor ar syniadau strategol y dyfodol a bod yn gyfrwng i hysbysu a chynghori'r Esgob, ei Staff hŷn a'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol, ynglŷn â blaenoriaethau'r werin bobl.

Un o nodweddion hynod y trefniadau cyfansoddiadol sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran cynigion yw, fod yn rhaid eu dwyn gerbron, fel rheol, dan gochl cynigion aelodau preifat, onis cefnogir gan y Pwyllgor Sefydlog (Taleithiol neu Esgobaethol). Mae'n amhosib i Gynhadledd Esgobaethol, AWL neu Bwyllgor Eglwysig ddwyn cynnig gerbron y Corff Llywodraethol drwy eu hawliau eu hunain. Gwir na allwn wneud dim ynghylch y Corff Llywodraethol ar hyn o bryd, er fod y Pwyllgor Sefydlog Taleithiol wrthi'n ystyried y mater drwy weithgor arbennig, ond fe allwn ddiwygio ein strwythurau'n fewnol i bwrpas caniatáu pwyllgorau Eglwysig a Chynghorau AddGLl i ymddangos gerbron y Gynhadledd Esgobaethol. Dyna'r bwriad y tu ôl i'r cynnig hwn.

Cynigiad:

Mae'r Gynhadledd hon am benderfynu:

1 Annog y Lleygwyr a'r Clerigiaid, drwy Bwyllgorau Eglwysig a Chynghorau AddGLl, i ddwyn busnes gerbron y Gynhadledd Esgobaethol a/neu ei Phwyllgor Sefydlog.
2 Caniatáu dyfod cynigion o raddfa Pwyllgor Eglwysig, via Cynghorau AddGLl, i'r Gynhadledd Esgobaethol. Byddai'r cyfryw gynigiad yn enw'r AWL.
3 Ni chaiff cynnwys unrhyw gynigion awgrymu newidiadau i Litwrgi neu Athrawiaeth yr Eglwys yng Nghymru, na chwaith osod pwysau ariannol ar y Bwrdd Cyllid Esgobaethol, ond fe all gychwyn trafodaeth ynglŷn â'r cyfryw feysydd.
4 Annog aelodau Esgobaethol Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i gefnogi unrhyw newidiadau ar raddfa daleithiol a fyddai'n caniatáu cynigion gan Bwyllgorau Eglwysig, AddGLl ac Esgobaethau i ddod gerbron yn y Corff Llywodraethol drwy eu hawliau eu hunain.
5 Gorchymyn i'r Cyd-Ysgrifenyddion ddiwygio'r Cyfansoddiad mewn modd priodol.

Cynigiwyd gan: Archddiacon Tyddewi

Eiliwyd gan: Mr N C P Griffin

Motion for Conference AGENDUM 12
MOTION ON MOTIONS

Explanatory Note

The Bishop believes that the voice of the laity in the Councils and structures of the Church is of paramount importance. The Standing Committee of the Diocesan Conference has agreed the importance of this and wishes to take active steps to allow the laity to actively participate in church governance, policy and debate. It is hoped to reinvigorate the life of the Diocese and its Conference by creating greater opportunities for lay people to be able to make a contribution.

The number of lay people on the Diocesan Conference Standing Committee has been increased, LMAs now have Lay Chairs for their LMA Councils and are examples of how the Diocese is moving towards greater lay participation in decision making and leadership.

The Diocesan Conference (and it's Standing Committee) is the place where future strategy ideas should be generated and serve to inform and advise the Bishop, her senior Staff and the Diocesan Board of Finance as to what the priorities of the people at grassroot level are.

One of the peculiarities of the current constitutional arrangements relating to motions is that they usually have to be brought by individuals as private members motions if not backed by the Standing Committee (Provincial or Diocesan). It is impossible for a Diocesan Conference, LMA or Church Committee to bring something to the floor of the Governing Body in their own right. Whilst we cannot currently do anything about the Governing Body, although this is an area currently being looked at by the Provincial Standing Committee through a working group, we can make internal modifications to our structures to allow Church Committees and LMA Councils to the floor of the Diocesan Conference. This motion seeks to do this.

Motion:

This Conferences resolves to:

1. Encourage the Laity and Clergy through Church Committees and LMA Councils to bring business to the Diocesan Conference and/or its Standing Committee
2. Allow motions to come from Church Committee level, via LMA Councils to the Diocesan Conference. Such a motion would be in the name of the LMA.
3. The nature of any motions shall not propose changes to Church in Wales Liturgy, Doctrine, or place a financial obligation upon the Diocesan Board of Finance but may initiate a debate relating to these areas.
4. Encourage the Diocesan members of the Governing Body of the Church in Wales to support any changes at provincial level that would allow motions from Church Committees, LMAs and Dioceses to come to the floor of the Governing Body in their own right.
5. Instruct the Joint Secretaries to amend the Constitution appropriately.

Proposed by: The Archdeacon of St Davids

Seconded by: Mr N C P Griffin

Motion for Conference AGENDUM 13
CYNNIG YNGLYN Â CHYNRYCHIOLAETH Y 4edd ARCHDDIACONIAETH

Nodyn Esboniadol

Mae'n anochel y cyfyd cwestiynau, o greu 4edd Archddiaconiaeth nad yw'n endid daearyddol na chyfarwydd. Gwyddom, o ystyried natur yr Archddiaconiaeth, y bydd yr hyn sy'n rhan ohoni, o bosib yn rhwym o newid wrth i eglwysi/Ganolfannau Cenhadu fynd a dod rhyngddi hi ac un o'r tair Archddiaconiaeth ddaearyddol. Er hyn, a derbyn natur y cyfryw eglwysi/Ganolfannau, sut mae sicrhau cynrychiolaeth, ar raddfa Esgobaethol, i'r bobl sy'n gweithio ynddynt ac yn perthyn iddynt?

Pan gyflwynodd y grŵp cynrychioli ei adroddiad, cytunwyd y byddai'r rheiny yn y 4edd Archddiaconiaeth, at ddibenion etholiadau Esgobaethol, yn gymwys i sefyll ac i bleidleisio gyda'r rheiny oedd mewn ardal/Archddiaconiaeth benodedig e.e.:

- Merlin's Bridge – i bleidleisio gydag Archddiaconiaeth Tyddewi
- Morfa & Cross Hands – i bleidleisio gydag Archddiaconiaeth Caerfyrddin
- Caplaniaeth Brifysgol – yn dibynnu ar gartref y caplan – naill ai Archddiaconiaeth Caerfyrddin neu Geredigion

Mae hyn yn gymharol hwylus, eithr sut mae sicrhau eu bod hefyd yn cael eu cynrychioli, drwy eu hawliau'u hunain, ar raddfa Esgobaethol o ran Cynhadledd a phwyllgorau. Sut, er engraifft, y caent eu cynrychioli ar y Pwyllgor Sefydlog?

I ryw raddau, does yna fawr o anhawster yn hyn o beth, os mai clerigiaid yw'r pwnc – mae pob clerig sy'n meddu ar drwydded yr Esgob, ohono/ohoni'i hun yn aelod o'r Gynhadledd Esgobaethol – felly, o ran y 4ydd Archddiacon, Caplan PCDDS a'r Prif Efengylydd ym Morfa, rhwydd hynt iddynt. Ond beth am y lleill, gweinidogion lleyg a'r rheiny a fydd yn mynychu'r Canolfannau Cenhadu?

Ein hawgrym, gan hynny, yw fod pob Efengylydd lleyg mewn Canolfannau Cenhadu yn cael eu derbyn yn aelodau'r Gynhadledd Esgobaethol – gan olygu y cânt eu trin yn yr un modd â chlerigiaid. At ddibenion y Cyfansoddiad Esgobaethol, bydd y Canolfannau Cenhadu'n cael eu trin fel AWL fechan. O ran y Pwyllgor Sefydlog, bydd hawl gan yr Archddiaconiaeth i enwi clerig ac efengylydd lleyg i'w cynrychioli. Byddwn yn cadw golwg ar hyn oll wrth i'r 4edd Archddiaconiaeth dyfu a datblygu.

Cynigiad:

Mae'r Gynhadledd hon am benderfynu:

1 Llwyr gyfuno'r Bedwaredd Archddiaconiaeth â'r Strwythurau Esgobaethol.

2 At ddibenion etholiadau'r Esgobaeth gyfan, bydd i Glerigiaid a Lleygwyr o fewn i'r 4edd Archddiaconiaeth bleidleisio gyda'r Archddiaconiaeth ddaearyddol y digwyddant fod ynddi.

3 At ddibenion y Gynhadledd Esgobaethol am y tro, bydd i bob Canolfan Genhadu gael ei chynrychioli gan ei hefengylwyr lleyg.

4 At ddibenion y Pwyllgor Sefydlog, bydd i'r 4edd Archddiaconiaeth, ar y cyd, ethol un clerig, ac am y tro, un Efengylydd lleyg i'w gwasanaethu a'i chynrychioli.

5 Bydd i'r Pwyllgor Sefydlog adolygu'n flynyddol sut i ganiatáu i'r rheiny sy'n dechrau addoli gyda Chanolfannau Cenhadu y 4edd Archddiaconiaeth, gael eu cynrychioli yn y Gynhadledd Esgobaethol a'r Pwyllgor Sefydlog, hefyd bob Pwyllgor Esgobaethol arall fel sy'n briodol.

6 Gorchymyn i'r Cyd-Ysgrifenyddion ddiwygio'r Cyfansoddiad fel sy'n briodol.

Cynigiwyd gan: Yr Archddiacon dros Gymunedau Eglwysig Newydd & Efengylu

Eiliwyd gan: Nick Griffin

MOTION ON 4TH ARCHDEACORY REPRESENTATION

Explanatory Note

The creation of a 4th Archdeaconry that is neither territorial nor easily recognisable brings its own issues. We know that the nature of the archdeaconry means that what is in it may and will change as churches/Centres of Mission move in and out of it to one of the three territorial archdeaconries. However, given the nature of these churches/Centre of Mission how do we ensure that those working within them and those who belong to them are able to be represented at Diocesan level?

When the representation group reported it was agreed that for the purposes of Diocesan elections those in the 4th Archdeaconry would be eligible to stand and vote with those where they were geographically located e.g:

- Merlin's Bridge – votes with Archdeaconry of St Davids
- Morfa & Cross Hands – votes with the Archdeaconry of Carmarthen
- University Chaplaincy – depending on where the chaplain lives – either Archdeaconry of Carmarthen or Cardigan

This is relatively straight forward, however, how do we ensure that they also have representation in their own right at Diocesan Level in regards Conference and committees. How for example do they get represented at Standing Committee?

Now in some ways this is relatively straight forward if there are clerics – all clerics who hold the bishop's licence are automatically members of Diocesan Conference – so for the 4th Archdeacon, the UWTSD Chaplain and the Lead Evangelist in Morfa there are no issues here. But what about the others, lay ministers and those who will attend the Centre's of Mission?

We therefore propose that all lay Evangelists within Centres of Mission are made members of the Diocesan Conference – this will mean that they are treated in the same way as clergy. For the purposes of the Diocesan Constitution the Centres of Mission will be treated as a mini LMA. In the Standing Committee the Archdeaconry will be entitled to a cleric and a lay evangelist to represent them. We will keep all of this under review as the 4th Archdeaconry grows and develops.

Motion:

This Conferences resolves:

1 Fully integrate the Fourth Archdeaconry into the Diocesan Structures.
2 For the purposes of Diocesan wide elections Clergy and Laity within the 4th Archdeaconry shall vote with the geographical Archdeaconry in which they are physically situated.
3 For the purposes of Diocesan Conference for the time being, each Centre of Mission shall be represented by their lay evangelists.
4 For the purposes of Standing Committee the 4th Archdeaconry collectively will elect one cleric and for the time being one lay Evangelist to serve and represent them.
5 The Standing Committee will keep under annual review how to allow those who begin to worship with the 4th Archdeaconry Centres of Mission to be represented at Diocesan Conference and Standing Committee and all other Diocesan Committees as appropriate.
6 Instruct the Joint Secretaries to amend the Constitution appropriately.

Proposed by: The Archdeacon for New Church Communities & Evangelism

Seconded by: Nick Griffin

RHEOLAU SEFYDLOG CYNHADLEDD ESGOBAETHOL TYDDEWI

1 Bydd i holl gyfarfodydd y Gynhadledd agor a chau drwy weddi.

2 Wedi i'r Llywydd gymeryd y Gadair, na fydded i unrhyw aelod barhau i sefyll ond wrth annerch y Gadair.

3 Pan fo'n bresennol yn y Gynhadledd, gall y Llywydd benodi aelod arall o'r Gynhadledd i gadeirio'r Gynhadledd yn ei le.

4 Pan fo dau aelod neu fwy yn sefyll ar yr un pryd i annerch y gadair, bydd i'r Cadeirydd benderfynu pa un ohonynt gaiff siarad gyntaf.

5

a) Rhaid i anerchiadau gan gynigydd ac eilydd beidio â phara am fwy na deg munud. Gall y cynigydd hefyd hawlio pum munud i ateb.

b) Rhaid i bob anerchiad arall beidio â phara am fwy na phum munud.

c) Gall y Cadeirydd, gyda chydsyniad y Cyfarfod, ganiatáu mwy o amser ar gyfer anerchiad.

d) Ni fydd yr adran hon yn berthnasol o ran Anerchiad y Llywydd.

6 Ni chaniateir i unrhyw aelod siarad fwy nag unwaith ar yr un cwestiwn, oddieithr i esbonio neu godi pwynt o drefn, onibai mai gweithredu ei hawl i ateb, fel cynigydd, y mae'r aelod.

7 Pa bryd bynnag y cyfyd y Cadeirydd ar ei draed yn ystod dadl, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad neu'n cynnig siarad, eistedd ar ei (h)union.

8 Os, yn ystod dadl, y cyfyd 30 aelod yn eu lleoedd gan fynnu fod pleidlais yn digwydd, bydd i'r Cadeirydd osod y cwestiwn hwnnw gerbron y Cyfarfod er mwyn cael penderfyniad drwy godi dwylo.

9 Os yw'r Cyfarfod yn cymeradwyo'r cais am bleidlais, bydd i'r Cadeirydd yn gyntaf gynnig i'r cynigydd yr hawl i ateb ac yna fynd yn union i bleidlais.

10 Ni cheir trafod ond y busnes ar y Papur Agenda. Anfonir yr Agenda i bob aelod o'r Gynhadledd ynghyd â hysbysiad am y Cyfarfod, a'r Adroddiadau, bedwar diwrnod ar ddeg o leiaf, cyn dyddiad y Cyfarfod.

11

a) Rhaid anfon, ar bapur unrhyw gwestiwn sy'n galw am ateb, ac unrhyw gynigiad gan aelodau, at Ysgrifennydd Lleyg y Gynhadledd, o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y Cyfarfod.

b) A bwrw fod unrhyw aelod yn dymuno dwyn cynnig gerbron, oddieithr ar gyfer Cyfarfod Arbennig, dylid anfon y cynnig at yr Ysgrifennydd Lleyg mewn da bryd i'w ystyried gan y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod yn union cyn cyfarfod y Gynhadledd.

12 Mewn cyfarfod ar wahan i Gyfarfod Arbennig, gall y Llywydd, fel y barno'n ddoeth, ganiatáu unrhyw fusnes arall, o natur arferol, nad yw'n ymddangos ar y Papur Agenda.

13 Bydd i'r holl welliannau fod yn ysgrifenedig, wedi eu llofnodi gan y cynigydd, a rhaid eu cyflwyno i'r ysgrifenyddion, cyn y cyfarfod, os bydd modd.

STANDING ORDERS OF THE ST DAVIDS DIOCESAN CONFERENCE

1 All meetings of the conference shall open and close with prayer.

2 When the President has taken the Chair, no member shall continue standing, except when addressing the Chair.

3 While he is present at the Conference, the President may appoint another member of Conference to chair the Conference in his place.

4 When two or more members rise simultaneously to address the Chair, the Chairman shall decide which of them shall speak first.

5

a) Speeches made by the proposer and seconder of a resolution shall not exceed ten minutes. The proposer may also claim five minutes for reply.

b) All other speeches shall not exceed five minutes.

c) The Chairman may, with the leave of the Meeting, extend the time for a speech.

d) This section shall not apply to the President's Address.

6 No member shall be allowed to speak more than once on the same question, except in explanation or to raise a point of order, unless it is the proposer of a motion exercising the right to reply.

7 Whenever the Chairman rises during a debate, any member speaking or offering to speak shall immediately sit down.

8 If, during a debate, 30 members rise in their places and demand that a vote be now taken, the Chairman shall put that question to the meeting for a decision by a show of hands.

9 If the meeting approves the call for a vote, the Chairman shall first offer the proposer the right of reply and then proceed directly to the vote.

10 Only the business set out on the Agenda Paper shall be transacted. The Agenda shall be sent to all members of Conference with the notice of meeting and Reports at least fourteen days before the date of the meeting.

11

a) Any question requiring an answer, and any motion that members wish to propose must be submitted in writing to the Lay Secretary of Conference at least seven days before the date of the meeting.

b) Should any member wish to propose a motion other than for a Special Meeting it should be sent to the Lay Secretary in time for consideration by the Standing Committee at its meeting immediately preceding the meeting of Conference.

12 At a meeting other than a Special Meeting, the President may, at his discretion, allow other items of business of a routine nature not appearing on the Agenda Paper.

13 All amendments shall be in writing, signed by the proposer and must be handed to the Secretaries, if possible before the meeting.

14 Ni fydd gwelliant ar welliant yn dderbyniol.

15

a) Ni raid darllen cynigiad a argraffwyd ar y Papur Agenda cyn ei gyflwyno.

b) Bydd i bob cynigiad neu welliant gael ei ddarllen yn union cyn cymryd pleidlais arno.

16 Pan elwir am bleidlais, penodir rhifwyr dros Urdd y Clerigiaid a thros Urdd y Lleygwyr, gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

17 Bydd i'r Pwyllgor Sefydlog gael ei awdurdodi i weithredu ar ran y Gynhadledd Esgobaethol, rhwng ei gyfarfodydd, mewn unrhyw fater y barna Esgob yr Esgobaeth ei bod yn angenrheidiol, a bydd i adroddiad o hynny gael ei roi gerbron y Gynhadledd yn ei chyfarfod nesaf.

18 Gall unrhyw aelod siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

19 Bydd i Gofnod Presenoldeb gael ei gadw.

20 Ni fydd cynigiad i ohirio Rheolau Sefydlog yn dderbyniol onibai fod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn codi i gefnogi hynny.

21 Bydd i'r Rheolau Sefydlog hyn gael eu hargraffu a'u hanfon allan gyda'r Agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Gynhadledd.

14 No amendment on an amendment shall be in order.

15

a) A motion which is printed on the Agenda Paper need not be read before being put.

b) All other motions or amendments shall be read immediately before the vote thereon is taken.

16 When a division is called for, tellers of both the Orders of Clergy and Laity shall be appointed by the President or Chairman.

17 The Standing Committee shall be authorised to act on behalf of the Diocesan Conference, between its meetings in any matter that the Bishop of the Diocese may deem to be necessary, and a report shall be made thereof to the conference at its next meeting.

18 Any member may speak in Welsh or English.

19 A Record of Attendance will be kept.

20 A motion for the suspension of Standing Orders shall not be in order unless a majority of the members present rise in support.

21 These Standing Orders shall be printed and circulated with the Agenda for each and every meeting of Conference.